Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

# Academi Arfer Proffesiynol ac Ymchwil Cymhwysol Cymru

www.uwtsd.ac.uk/wappar

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Ein Gweledigaeth | 3 |
| Astudio yn yr Academi | 4 |
| Gweithio gyda'ch sefydliad | 5 |
| Strwythur Cyffredinol y Rhaglen | 6 |
| Enghreifftiau o Ddyluniadau Rhaglenni | 8 |
| Y Modylau a Gynigiwn | 8 |
| Cynllun Dysgu | 9 |
| Cydnabod ac Achredu Dysgu | 10 |
| Dulliau Ymchwil | 12 |
| Prosiect Dysgu Seiliedig ar Waith | 13 |
| Modwl Astudio Annibynnol | 14 |
| Hyfforddi a Mentora | 15 |
| Modwl Arweinyddiaeth | 16 |
| Cwestiynau Cyffredin | 20 |
| MA mewn Hyfforddi a Mentora | 21 |
| Y Gymdeithas Hyfforddi | 22 |
| Rhaglenni Doethur | 23 |
| Y Ddoethuriaeth Broffesiynol | 24 |
| Doethuriaeth (PhD) | 25 |
| Opsiynau Addysg Swyddogion Gweithredol | 25 |
| Cynigion Achredu i Sefydliadau | 26 |
| Ymgynghori | 28 |
| Cwrdd â'r Tîm | 29 |
| Ein partneriaid | 35 |
| Sut i wneud cais | 35 |

# EIN GWELEDIGAETH

**Croeso cynnes i Academi Arfer Proffesiynol ac Ymchwil Cymhwysol Cymru. Rydym yn angerddol dros ddarparu datblygiad proffesiynol sy'n:**

- cefnogi pobl i ffynnu a gwneud cyfraniad sylweddol i'w sefydliad;
- datblygu eu dyheadau gyrfa;
- cydnabod eu profiad a'u dysgu yn y gorffennol, a
- darparu cymwysterau academaidd sy'n rhoi tystiolaeth o'u cyflawniadau.

Rydym yn gweithio gyda sefydliadau i sicrhau'r effaith fwyaf o'u cyllidebau hyfforddi yn ogystal ag unigolion sy'n ceisio graddau o lefel israddedig i ddoethuriaeth. Golyga ein dulliau darparu unigryw y gellir darparu ein gwasanaeth mewn modd amserol a chost effeithiol sydd wedi ei deilwra ar gyfer anghenion dysgwyr a/neu sefydliad.

- Cewch chi ddilyn ein modylau naill ai ar-lein yn llwyr neu drwy gyfuniad o weithdai a chymorth ar-lein;
- Does dim rhaid i chi fynd i ddosbarthiadau nos neu i sesiynau rheolaidd – gall ein darpariaeth fod ar ffurf gweithdai diwrnod cyfan a/neu diwtorialau yn eich lle gwaith pan fyddwch yn rhan o garfan;
- Chi neu eich sefydliad sy'n nodi'r cyfuniad o fodylau sy'n taro deuddeg ar gyfer yr hyn yr ydych am ei gyflawni;
- Cewch chi diwtor preifat a fydd yn gallu cysylltu â chi os bydd angen help neu gymorth arnoch.

Deallwn y gall ein dysgwyr deimlo braidd yn nerfus gyda sgiliau academaidd megis ysgrifennu, fodd bynnag, rydym yn ymfalchïo yn y cymorth ardderchog a ddarparwn er mwyn lleddfu unrhyw bryderon. Dyluniwn ein rhaglenni i roi i chi'r holl sgiliau y mae eu hangen arnoch i astudio o'r cychwyn cyntaf a gwneud yn siŵr eich bod hefyd yn gwybod sut i fanteisio ar y cymorth sydd ar gael yn y Brifysgol megis sgiliau astudio, llyfrgelloedd, gweithdai a seminarau wrth i chi symud ymlaen.

Gyda dros 2,000 o raddedigion o'n rhaglenni, rydym yn hyderus y gallwn ddarparu datblygiad perthnasol sy'n diwallu eich anghenion; gan ganiatáu i chi gyflawni beth hoffech chi ei gael o'ch gyrfa a gwella eich effaith ar eich sefydliad.

**Dr Annette Fillery-Travis**
*Pennaeth Academi Arfer Proffesiynol ac Ymchwil Cymhwysol Cymru*

# ASTUDIO YN YR ACADEMI

**Os ydych yn meddwl am astudio gyda ni'n ddysgwr bydd angen i chi gyfarfod â'n tiwtor derbyniadau i ddylunio rhaglen sy'n gweddu i chi. Isod nodir rhai o'r pethau y mae angen i chi eu hystyried wrth benderfynu beth yr hoffech ei astudio gyda ni a sut.**

### *Pa radd yr hoffech chi wneud cais amdani?*

Cynigiwn radd israddedig, tystysgrif ôl-raddedig, diploma ôl-raddedig, MA a Doethuriaeth mewn Arfer Proffesiynol. Ar gyfer pob un o'r graddau hyn, bydd eich astudiaethau'n canolbwyntio ar eich arfer proffesiynol a'ch datblygiad oddi mewn i'ch arfer. Os ydych yn ansicr, beth am holi un o aelodau'r tîm am gyngor?

### *Hoffech chi ddilyn gradd lawn neu ydych chi am ddilyn cyrsiau unigol?*

Gellir dilyn pob un o'n modylau'n ddatblygiad ar ei ben ei hun i ddysgwyr unigol neu ar gyfer carfannau sefydliadol. Gellir eu dilyn ar ffurf hyfforddiant – gyda neu heb asesiad academaidd, neu'n rhan o radd Meistr lawn. Mae ein modwl lefel 7 Hyfforddi a Mentora'n enghraifft dda: darpara sail ardderchog ar gyfer gweithio'n rheolwr ac yn hyfforddwr pan gaiff ei ddarparu i garfannau sefydliadol ond gall unigolion hefyd ei ddilyn yn fodwl cyntaf yn ein MA mewn Hyfforddi a Mentora (tudalen 21).

### *Hoffech chi weld eich profiad proffesiynol/gwaith yn cael ei gydnabod tuag at eich gradd?*

Os felly, gallech chi wneud cais i gydnabod y profiad a'r hyn yr ydych wedi ei gyflawni 'wrth y gwaith' ac a gydnabuwyd trwy'r modwl Cydnabod Dysgu Blaenorol (gweler modwl RAL tudalen 10). Mae dysgu o brofiad yn wahanol i 'ddysgu ffurfiol', fodd bynnag, mae'r un mor ddilys a phwysig â'r hyn a ddysgwyd ar gwrs neu radd. Trwy ddilyn y modwl hwn, byddwch yn nodi'r hyn a ddysgwyd gennych y tu allan i addysg arferol neu gyrsiau hyfforddi. Gallwch sicrhau bod hyn yn cael ei gydnabod a'i gyfrif tuag at radd. Byddwn yn gweithio gyda chi i hawlio ar gyfer y profiad hwn, a thrwy hyn, mae'n bosibl hawlio hyd at ddwy ran o dair o radd, tystysgrif neu MA.

### *A allwch chi fynd i sesiynau dosbarth ar y campws neu astudio ar-lein?*

Mae hefyd yn ddefnyddiol ystyried a hoffech ymweld â'r Brifysgol yn bersonol ac ymwneud â dysgwyr eraill neu a oes angen i chi astudio o bell neu â chysylltiad cyfyngedig â'r Brifysgol.

Mae gan bob un o'n modylau weithdai y gallwch chi fynd iddynt naill ai yn y Brifysgol neu, os ydych chi'n rhan o garfan, yn eich lle gwaith. Gellir dilyn y rhan fwyaf o'n modylau o bell trwy gyfuniad o adnoddau ar-lein a thiwtorialau personol trwy gyfrwng Skype for Business.

Trowch nawr i dudalen 7 Strwythur Cyffredinol y Rhaglen.

# GWEITHIO GYDA'CH SEFYDLIAD

**Os ydych chi'n sefydliad sy'n dymuno gweithio gyda ni, bydd ein hymgynghorydd dysgu arweiniol yn gweithio gyda chi i ateb y cwestiynau canlynol a dylunio ein gwasanaethau i ddiwallu eich anghenion.**

### *Ydych chi'n gwmni sydd am i'r Brifysgol gydnabod eich datblygiad mewnol?*

Gellir dod o hyd i wybodaeth ar gyfer y rhai sy'n dymuno gwneud cais i'r Brifysgol am achredu ar gyfer eu rhaglenni dysgu a datblygu mewnol eu hunain ar dudalen 26 o'r prosbectws hwn.

### *Ydych chi'n gwmni sy'n awyddus i'r Brifysgol gydnabod yr hyfforddiant a ddarparwch?*

Gellir dod o hyd i wybodaeth ar gyfer y rhai sy'n dymuno gwneud cais i'r Brifysgol am achredu rhaglenni dysgu a datblygu masnachol ar dudalen 27 o'r prosbectws hwn.

## Mae croeso i'r canlynol wneud cais:

- Sefydliadau sydd wedi sefydlu eu cwrs dysgu eu hunain sy'n benodol i sector, a ddarparwyd yn fewnol yn flaenorol ac sydd bellach yn dymuno cael eu hachredu am ddarpariaeth fasnachol i sefydliadau eraill oddi mewn i'w sector eu hunain;
- sefydliadau sydd wedi nodi'r angen am ddysgu a datblygiad penodol i'r sector mewn maes pwnc penodol, ac sy'n dymuno datblygu cwrs achrededig i ddarparu hyn yn fasnachol;
- hyfforddi a datblygu sefydliadau sy'n dymuno ychwanegu gwerth marchnata a bri trwy achredu rhaglenni pwrpasol y maent yn eu datblygu ar gyfer eu cleientiaid;

### *Hoffech chi gomisiynu cwrs hyfforddi neu ymyriad gennym ni?*

Gallwn gynnig ein holl brif ddarpariaeth ar ffurf hyfforddiant ar gyfer carfannau sefydliadol neu yn rhan o gynllun dysgu i'ch pobl. Yn yr achos hwn, fel arfer, bydd ein tiwtoriaid yn darparu'r hyfforddiant a'r datblygiad ar eich safle chi ac ar adeg sy'n gweddu i chi. Gallwn hefyd addasu'r patrwm darparu i weddu i'ch pobl er mwyn lleihau'r gwrthdaro â phatrymau gwaith a gallwn addasu cyrsiau i adlewyrchu eich diwylliant a'ch anghenion strategol, er enghraifft, wrth ddefnyddio eich fframwaith arweinyddiaeth neu ymgorffori eich blaenoriaethau sefydliadol oddi mewn i ddyluniad prosiectau yn y gwaith. I gael manylion ein darpariaeth, trowch i dudalen 28 Ymgynghoriaeth.

# STRWYTHUR CYFFREDINOL Y RHAGLEN

**Lluniwyd y Fframwaith Arfer Proffesiynol i ganiatáu i ymarferwyr astudio ar gyfer cymhwyster Addysg Uwch yn eu maes proffesiynol. Yn dibynnu ar eu profiad a'u dyheadau, gall gweithwyr proffesiynol, ymarferwyr, rheolwyr a staff cymorth gyflawni gradd israddedig, tystysgrif/diploma ôl-raddedig neu MA yn eu harfer eu hunain.**

Mae'r cwricwlwm arloesol yn caniatáu i chi ddylunio cynnwys eich rhaglen (gyda chymorth gan eu hymgynghorydd academaidd eu hunain) i weddu i'ch anghenion. Nodir isod strwythur cyffredinol y radd MA ac fe welwch y cewch ddewis modwl 3 o'r modylau a nodir ar dudalennau 9 - 22.

## Enghraifft 1

### MA Arfer Proffesiynol (180 credyd) – Llwybr 1

Modwl 5

**Prosiect Ymchwil Seiliedig ar Waith**

Modwl 4

**Modwl Dulliau Ymchwil sy'n canolbwyntio ar wneud ymchwil yn y gweithle**

Modwl 3

**Dewis eich modylau eich hun sy'n addas i'ch anghenion datblygu**
**Enghreifftiau'n cynnwys arweinyddiaeth, a hyfforddi a mentora**

Modwl 2

**Cydnabod ac Achredu Dysgu Blaenorol (RAL)**
**Cais am 60-120 credyd yn dibynnu ar brofiad**

Modwl 1

**Cynllun Dysgu**

*D.S. trafodir gwerthoedd credyd adeg dechrau

# STRWYTHUR CYFFREDINOL Y RHAGLEN

## Enghraifft 2

**BA Arfer Proffesiynol (360) – Enghraifft o lwybr**

Mod Modwl 8

**Prosiect Dysgu Seiliedig ar Waith**
**Ar gael am 30/40/60 credyd ar Lefel 6**

Modwl 7

**Ymchwil yn y Gweithle**
**10 credyd ar lefel 6**

Modwl 6

**Modwl Astudio Annibynnol**
**Ar gael am 10/20/30 credyd ar Lefelau 4, 5 a 6**

Modwl 5

**Hyfforddi a Mentora**
**30 credyd ar lefel 5**

Modwl 4

**Cydnabod ac Achredu Dysgu Blaenorol (RAL)**
**20 credyd ar lefel 6 (Traethawd Adfyfyriol)**
**Cais am RAL rhwng 60 – 240 credyd ar Lefelau 4/5/6**
**(gwerth y cais i'w gytuno adeg cynefino)**

Modwl 3

**Cyflwyniad i Arweinyddiaeth ar adegau o argyfwng**
**30 credyd ar lefel 4**

Modwl 2

**Cyflwyniad i Arweinyddiaeth a Newid**
**30 credyd ar lefel 4**

Modwl 1

**Paratoi ar gyfer Dysgu Seiliedig ar Waith**
**30 credyd ar lefel 4**

Cymorth rheolaidd gan Diwtoriaid Modylau

Cymorth ar-lein trwy Moodle

Canolfan Adnoddau Dysgu Rhithwir

Os oes gennych ddiddordeb yn ein Rhaglen Ddoethurol, trowch i dudalen 25 lle disgrifir y rhaglen yn llawn.

# ENGHREIFFTIAU O DDYLUNIADAU RHAGLENNI

*Astudiaeth Achos 1:*

**Roedd Sarah yn gweithio'n amser llawn ac yn anelu tuag at rôl arweinyddiaeth yn ei sefydliad – sef cwmni yswiriant o bwys. Roedd hi wedi bod gyda nhw ers iddi orffen eu harholiadau lefel A gan lwyddo i gyrraedd rôl oruchwyliol ond mewn gwirionedd roedd ei bryd ar swydd reoli ganol. Roedd hi'n ymwybodol bod y manylebau swyddi ar y lefel honno wedi nodi bod gradd MA yn ddymunol ac roedd hi'n pryderu na fyddai'n gallu mynd ymhellach heb gymryd amser allan i gael gradd ac wedyn MA.**

Mewn ymgynghoriad â Julie, ein tiwtor derbyniadau, daeth yn amlwg bod Sarah wedi datblygu cryn arbenigedd yn ei rôl, ac yn wir wedi bod yn arwain rhai prosiectau mawr yn ddiweddar a oedd wedi sicrhau canlyniadau sylweddol i'w chwmni. Gofynnodd Julie am weld ei hadroddiadau prosiect ac roedd hi'n glir bod gan Sarah arddull ysgrifennu busnes da, sgiliau dadansoddol a phrofiad rheoli prosiectau. Awgrymodd Julie fod Sarah yn mynd yn syth i radd MA a'i bod yn gofyn am gymryd i ystyriaeth ei harbenigedd trwy fodwl RAL. Roedd Sarah yn falch dros ben gyda hyn gan ei bod yn golygu y gallai hi gael MA mewn dwy flynedd wrth weithio'n amser llawn heb orfod gwneud gradd israddedig yn gyntaf.

**Roedd pedwar modwl i'w rhaglen derfynol:**

1. Cynllunio ar gyfer Dysgu Seiliedig ar Waith – i'w chynefino â gwaith academaidd (20 credyd);
2. Modwl RAL i hawlio cyfanswm o 70 credyd am ei dysgu blaenorol a'i harbenigedd;
3. Hyfforddi a mentora, gan y teimlai y byddai hyn yn ddefnyddiol wrth i'w rôl reoli gynyddu (30 credyd);
4. I gloi, prosiect ymchwil seiliedig ar waith (60 credyd).

Er ei bod hi'n gweithio'n amser llawn, dewisodd fynd i weithdai ar gyfer pob un o'r modylau hyn gan ei bod hi'n mwynhau gweithio gydag eraill a chael y diwrnod cyfan heb i unrhyw beth darfu arni. Wrth astudio ar gyfer ei rhaglen gofynnodd am ohirio ei hastudiaethau am dri mis gan fod ganddi fater teuluol yr oedd angen iddi ofalu amdano ond llwyddodd, serch hynny, i gwblhau ei rhaglen ymhen dwy flynedd.

*Astudiaeth Achos 2:*

**Roedd Peter am ddysgu am hyfforddi a mentora gan ei fod yn meddwl y byddai'n ychwanegiad defnyddiol at ei fusnes ymgynghori. Dilynodd y modwl 30 credyd lefel 7, ar ffurf hyfforddiant yn unig i ddechrau, ond cafodd gymaint o flas nes iddo gredu y byddai'n gwneud yr aseiniad academaidd a sicrhau'r credydau.**

Wrth siarad â'i diwtor personol, sylweddolodd pe bai'n dilyn modwl 30 credyd arall, gallai gael tystysgrif ôl-raddedig.

Byddai hyn yn golygu y gallai wneud cais am achrediad gydag un o'r cyrff hyfforddi proffesiynol ac roedd yn awyddus i wneud hyn gan ei fod yn creu hygrededd gyda'i gleientiaid. Dewisodd wneud modwl prosiect 30 credyd a'i ddefnyddio i ymchwilio'n fanylach i hyfforddiant tîm gan y teimlai y byddai hynny'n gynnig ardderchog i gleientiaid. Roedd yn llygad ei le, felly wrth gerdded ar draws y llwyfan adeg graddio, roedd yn edrych ymlaen at ddechrau gweithio'n hyfforddwr tîm gan gefnogi grŵp arloesi ar gyfer cwmni lleol.

# Y MODYLAU A GYNIGIWN

**Yn y tudalennau canlynol, fe welwch ddetholiad o'r modylau craidd y cewch chi eu dewis wrth roi eich rhaglen unigol eich hun at ei gilydd. Cofiwch, os oes gennych ddiddordeb penodol mewn modwl a redir gan ddisgyblaethau eraill oddi mewn i'r Brifysgol, gellir cynnwys hwn yn eich rhaglen gyda ni – rhowch wybod i ni ar y dechrau a gallwn ni drefnu hynny.**

Disgrifir pob modwl yn ôl ei lefel – lefel 4 yw myfyriwr israddedig blwyddyn gyntaf a lefel 7 yw lefel MA – a thrwy werth credydau sy'n nodi'n fras faint o waith sy'n gysylltiedig â'r modwl. Mae modwl 20 credyd yn golygu 200 awr o ddysgu, ond peidiwch â phoeni gan fod hyn yn cynnwys eich dysgu proffesiynol yn y gweithle! Ar gyfer gradd MA mae angen modylau sy'n creu cyfanswm o 180 o gredydau a thystysgrif ôl-raddedig o 60 credyd.

# CYNLLUN DYSGU

**Paratoi ar gyfer Dysgu sy'n Seiliedig ar y Gweithle**
**Cynllunio ar gyfer Dysgu sy'n seiliedig ar y Gweithle**
**Datblygiad Proffesiynol Parhaus**
**Dyddiad dechrau:** 3 carfan newydd y flwyddyn, Medi, Ionawr, Ebrill
**Nifer y diwrnodau yn y Brifysgol:** 2 ddiwrnod, ynghyd â thiwtorialau
**Hyd:** 4 mis
**Credydau:** 20 credyd
**Lefel:** 4-7

*Beth y byddwch chi'n ei ddysgu yn y modwl hwn?*
Oddi mewn i'r modwl hwn, byddwch hefyd yn adolygu ac yn asesu eich cymwyseddau cyfredol a sut y maent yn llywio'r hyn y mae ei angen arnoch ac yr hoffech ei ddysgu. Dyluniwyd y modwl hwn i ddarparu arweiniad a chymorth i'r rhai sy'n dymuno rhoi cynllun at ei gilydd ar gyfer astudio i helpu eu datblygiad a gwella eu perfformiad yn y gwaith.

Gyda chymorth, byddwch yn gallu dyfeisio ac ysgrifennu amcanion penodol ar gyfer eich rhaglen ddysgu unigol a chreu cynllun dysgu personol. Unwaith y byddwch wedi cwblhau'r modwl hwn yn llwyddiannus, byddwch yn ennill 20 credyd y gallwch eu rhoi at ddyfarniad sy'n berthnasol i'ch lefel astudio. Mae hwn hefyd yn fodwl ardderchog i'ch cyflwyno i ysgrifennu academaidd, ac astudio ar lefel uwch.

*Sut y cewch chi eich cefnogi?*
Yn ystod eich astudiaethau, cewch chi eich cefnogi gan diwtor a ddyrannwyd a'i rôl fydd rhoi cyngor i chi ar sut i ddatblygu eich dysgu a'r hyn y gallwch ei gyflawni. Cewch gyflwyniad i Amgylchedd Dysgu Rhithwir y Brifysgol (ADRh), y byddwch, wedyn, yn gallu ei ddefnyddio i weld adnoddau gartref neu yn eich gweithle. Lluniwyd y sesiwn a addysgwyd i roi i chi arweiniad a chyngor ar sut i ddadansoddi eich cymwyseddau, anghenion, dymuniadau a'ch dyheadau eich hunain yng nghyd-destun eich gweithle eich hunain. Bydd dysgwyr yn adfyfyrio ar yr hyn a ddysgant a chymwyseddau seiliedig ar waith yn sail ar gyfer nodi eu hanghenion hyfforddi a datblygu, ac wedyn creu cynllun dysgu manwl i helpu eu datblygiad yn y dyfodol. Ni fydd y rhan fwyaf o ddysgwyr sy'n dechrau eu hastudiaethau gyda ni wedi astudio gyda ni ers nifer o flynyddoedd, felly peidiwch â gadael i hynny eich atal chi rhag cyflawni eich potensial.

*Sut y cewch chi eich asesu?*
Mae'r modwl hwn ar gael ar Lefelau 4-7, yn dibynnu ar lefel eich cymwysterau a'ch profiad, ac o ganlyniad bydd yr asesu'n amrywio rywfaint.  Ar ddiwedd y cwrs, byddwch yn cyflwyno portffolio a fydd yn cynnwys elfennau megis CV a Disgrifiad Swydd, Dadansoddiad Anghenion Hyfforddi, adolygiad adfyfyriol a Chynllun Datblygiad Personol a fydd yn nodi eich anghenion hyfforddi a datblygu.

*Pwy sy'n ei addysgu?*
Julie Crossman a Sarah Loxdale

## Barn Myfyrwyr

***"Cawsom brofiad arbennig a dathliad hyfryd, diolch. Roedd pob un o'r staff a'r tiwtoriaid yn wych... ond roedd Julie'n hollol anhygoel a byddaf yn ei dyled hi am byth am ei gallu i gloddio i ddarganfod yr academydd ynof! "***

Rosie Frewin

***"Byddwn i byth wedi gallu gwneud hyn heb eich holl gymorth chi. Diolch o galon i Julie Crossman yn enwedig am newid fy agwedd at addysg a'm cred ynof fy hun am byth."***

Sharon Frewin

# CYDNABOD AC ACHREDU DYSGU

**Dyddiad dechrau:** 3 carfan newydd y flwyddyn i weddu i ddysgwyr
**Nifer y diwrnodau yn y Brifysgol:** 3 diwrnod, ynghyd â thiwtorialau
**Hyd:** Yn amrywio rhwng 4 a 9 mis
**Credydau:** 50 credyd hyd uchafswm o 2/3 o'r radd
**Lefel:** 4,5, 6 a 7

*Beth y byddwch chi'n ei ddysgu yn y modwl hwn?*
Mae'r Modwl Cydnabod ac Achredu Dysgu (RAL) yn eich galluogi i ddatblygu dealltwriaeth o arfer adfyfyriol a defnyddio sgiliau dadansoddi beirniadol i nodi'r hyn a ddysgwyd gennych o brofiad yn ystod y 5 mlynedd ddiwethaf.

**Mae enghreifftiau o ddysgu o brofiad yn cynnwys:**
- mynd i gyrsiau heb eu hachredu gan gynnwys cynadleddau a seminarau;
- derbyn hyfforddiant seiliedig ar waith/mentora;
- mynd ati i gysgodi swydd;
- cwblhau gweithgareddau newydd/prosiectau ac ennill profiad/datblygu gwybodaeth a sgiliau drwyddi draw;
- adfyfyrio ar weithgareddau a pherfformiad unigol er mwyn gwella arfer.

Gall dysgu o brofiad fod yn seiliedig ar waith neu gall gynnwys gwaith a wneir yn wirfoddol, er enghraifft; Llywodraethwr Ysgol, Trysorydd ar gyfer elusen leol.

**Trwy fynd ati i adfyfyrio ar ddysgu o brofiad, bydd dysgwyr yn paratoi portffolio sy'n cynnwys:**
- Curriculum Vitae gyda nodiadau a disgrifiad swydd;
- Maes/meysydd dysgu sy'n nodi'r hyn a ddysgwyd o brofiad;
- Amrywiaeth o dystiolaeth i ategu'r honiad.

*Sut y cewch chi eich cefnogi?*
Ar eich diwrnod cynefino, cewch eich cyflwyno i gysyniadau, egwyddorion ac arferion perthnasol hunan astudio gyda chymorth ac eglurir deilliannau dysgu disgwyliedig y modwl.

Dyrannir i chi diwtor personol a fydd yn rhoi i chi gyngor ac arweiniad ar amrywiaeth o agweddau.  Defnyddir y tiwtorialau i ymateb i unrhyw bryderon a allai fod gennych, i gefnogi adfyfyrio a gwerthuso, defnyddio'r hyn a ddysgwyd, a darparu adborth ar unrhyw ddrafftiau a gyflwynwyd.

Cewch hefyd fynediad i amrywiaeth eang o adnoddau modwl ar-lein trwy dudalennau llyfrgell a Moodle, a chewch gyflwyniad i Amgylchedd Dysgu Rhithwir (ADRh) y Brifysgol ynghyd â gwasanaethau cymorth cysylltiedig a fydd yn eich galluogi i fanteisio ar adnoddau o bell.

*Sut y cewch chi eich asesu?*
Byddwch yn paratoi portffolio sy'n rhoi manylion eich profiad a'r hyn a ddysgwyd hyd yma gan gynnwys amrywiaeth o dystiolaeth a fydd yn cefnogi'r credydau a hawliwch. Yn ogystal â'r portffolio, byddwch yn llenwi ffurflen hawlio a thraethawd adfyfyriol. Ar gyfer y traethawd adfyfyriol hwn bydd angen i chi adfyfyrio ar y broses o ddadansoddi'n feirniadol eich gweithgarwch seiliedig ar waith er mwyn nodi'r hyn a ddysgwyd o brofiad. Cewch chi gymorth gan eich tiwtor gyda'r holl elfennau asesu.

*Pwy sy'n ei addysgu?*
Sarah Loxdale yw'r Cydlynydd Modwl ac mae hefyd yn arwain y gwaith o ddarparu a thiwtora'r modwl RAL.

*Pa effaith y mae'r modwl yn ei chael ar ddatblygiad dysgwr?*
Rydym wedi cynnal ymchwil i effaith y modwl hwn ac mae'r canlyniadau yn arbennig.

Mae'n glir drwy'r adborth a gafwyd i gyn-fyfyrwyr gael budd go iawn o ddilyn y modwl hwn o ran gwella eu hyder ac effeithlonrwydd yn eu rôl gwaith!

## Barn Myfyriwr


***"Nid awydd i ddod o hyd i ryw fath o newid gyrfa oedd wrth wraidd fy mhenderfyniad i ddilyn y rhaglen RAL, ond yn fwy na hynny awydd i gael cydnabyddiaeth o'r hyn rydw i wedi ei ddysgu ar lefel strategol ac, ar yr un pryd, wella fy rhagolygon o ran gyrfa yn y dyfodol."***

***"Roedd y modwl yn heriol, rhoddodd hyder i mi ac mae wedi fy ngalluogi i edrych yn ôl ar yr hyn rydw i wedi ei gyflawni ac ennill credyd am y cyflawniadau hynny trwy adfyfyrio ar fy arfer."***

***"Mae creu'r meysydd dysgu ar gyfer y prosiect RAL wedi ehangu fy nealltwriaeth o'm rôl yn rheolwr ac yn arweinydd. Rwy'n synnu fy mod i wedi cael cymaint o lwyddiant hyd yn hyn; ni wnes i erioed yn ystod fy ngyrfa ystyried na deall pwysigrwydd arfer adfyfyriol, nac eistedd yn ôl ac edrych ar yr hyn rwy wedi ei gyflawni."***

***"Doedd RAL ddim yn gwrs hyfforddi traddodiadol. Roedd yn lle i adfyfyrio, yn amser i ddysgu ac amser i fwynhau'r hyn rydw i wedi ei gyflawni. Bu'n amser i adfyfyrio ar fy arddull arwain fy hun, fy mhersonoliaeth a'm gwydnwch meddwl, ac yn amser i ddarganfod faint rydw i wedi datblygu a thyfu."***

# CYDNABOD AC ACHREDU DYSGU



# DULLIAU YMCHWIL

**Dyddiad dechrau:** yn amrywio (fel arfer 3 y flwyddyn)
**Nifer y diwrnodau yn y Brifysgol**: 2
**Hyd:** tua 5 mis i gyd
**Credydau :** 20
**Lefel**: 7

*Beth y byddwch chi'n ei ddysgu yn y modwl hwn?*

Mae'r modwl yn cyflwyno amrywiaeth o ddyluniadau a dulliau ymchwil, a'r cefndir athronyddol i'r gwaith ymchwil. Mae hefyd yn datblygu gwerthusiad beirniadol o ddulliau ymchwil, wrth eich galluogi ar yr un pryd i ddysgu sut i ddadansoddi, esbonio a thynnu casgliadau o'r data perthnasol o leoliad seiliedig ar waith. Mae'r modwl hefyd yn archwilio moeseg ymchwil a materion ynghylch ymchwil pobl ar y tu mewn.

*Sut y cewch chi eich cefnogi?*

Dau ddiwrnod o ddysgu wyneb yn wyneb, gyda'r ail ddiwrnod wedi'i seilio ar weithdy ymarferol. Bydd eich tiwtor yn hapus i ateb ymholiadau penodol dros y ffôn neu e-bost, a mae cyfle hefyd i gyflwyno aseiniad drafft ar gyfer adborth ffurfiannol.

*Sut y cewch chi eich asesu?*

Cewch eich asesu trwy waith cwrs, sef:
Traethawd 3000 o eiriau sy'n canolbwyntio ar werthuso'n feirniadol athroniaethau, dyluniadau a dulliau ymchwil a dadansoddiad disgrifiadol o set ddata fach a ddarparwyd i chi.

*Pwy sy'n ei addysgu?*

Dr Christine Davies yw'r Arweinydd Modwl.

# PROSIECT DYSGU SEILIEDIG AR WAITH

**Dyddiad dechrau:** 3 gwaith y flwyddyn (o leiaf)
**Nifer y diwrnodau yn y Brifysgol:** 1 diwrnod cynefino, ynghyd â thiwtorialau
**Hyd:** 3 i 8 mis, yn dibynnu ar Werth Credyd
**Credydau**: 20 i 60
**Lefelau:** 4 i 7

*Beth y byddwch chi'n ei ddysgu yn y modwl hwn?*
Mae'r modwl hwn yn caniatáu i chi ddylunio a gweithredu prosiect seiliedig ar waith, sydd o fudd i chi a'r sefydliad yr ydych yn gweithio iddo.

## Byddwch yn dysgu i wneud y canlynol:

- dylunio, mewn cydweithrediad â'ch lle gwaith, prosiect yr hoffech ei gynnal;
- cynllunio eich gwaith prosiect fesul un gyda'ch tiwtor a sicrhau cymeradwyaeth foesegol gan y Brifysgol;
- cynnal eich prosiect yn y gwaith wrth dderbyn cymorth ac arweiniad gan eich tiwtor;
- dysgu ysgrifennu adroddiad prosiect, gan egluro eich darganfyddiadau, eu hesbonio yng nghyd-destun eich gweithle, a'u cysylltu â meysydd astudio ehangach.

## Manteision:

- Dysgu dylunio, cynnal eich ymchwil annibynnol eich hun ac adrodd arno;
- Cael cymorth fesul un gan diwtor ymroddedig;
- Cwblhau prosiect ymchwil cadarn a gaiff effaith uniongyrchol ar eich sefydliad.

Mae'r modwl hwn yn orfodol os hoffwch gwblhau cymhwyster Baglor neu MA mewn Arfer Proffesiynol.

*Sut y cewch chi eich cefnogi?*
Un diwrnod sefydlu, ynghyd â chefnogaeth diwtorial un i un wrth ichi baratoi eich cynnig ac yna gynnal yr ymchwil. Mae'r gefnogaeth ar gael yn bersonol, trwy e-bost, ffôn neu Skype.

*Sut y cewch chi eich asesu?*
Asesir dysgwyr ar bortffolio prosiect sy'n cynnwys cynnig prosiect, adroddiad prosiect, a chyflwyniad.

*Pwy sy'n ei addysgu?*
Nick Samuel (Arweinydd Modwl), wedi ei gynorthwyo gan aelodau profiadol ein tîm.

# MODWL ASTUDIO ANNIBYNNOL

**Dyddiad dechrau:** yn amrywio i weddu i ddysgwyr unigol
**Nifer y diwrnodau yn y Brifysgol:** 1 diwrnod, ynghyd â thiwtorialau
**Hyd:** yn amrywio yn dibynnu ar lefel a gwerth y credydau
**Credydau:** 10-30 o gredydau
**Lefel**: 4-7

*Beth y byddwch chi'n ei ddysgu yn y modwl hwn?*
Lluniwyd y modwl hwn i'ch galluogi chi i ddewis ac astudio pwnc sydd o berthnasedd penodol i'ch arfer gweithle a'ch datblygiad personol yn annibynnol. Byddwch yn dysgu sut i greu a gweithredu cynllun astudio sy'n gysylltiedig â'ch arfer proffesiynol eich hun. Cewch arweiniad a chymorth i ymchwilio i theorïau a methodolegau sy'n berthnasol i'ch maes astudio, ac i'w dadansoddi. Byddwch hefyd yn dysgu sut i adfyfyrio'n feirniadol ar eich profiadau dysgu a gwerthuso effaith yr hyn a ddysgwyd gennych ar eich arfer a'ch perfformiad.

*Sut y cewch chi eich cefnogi?*
Ar eich diwrnod cynefino cewch chi eich cyflwyno i gysyniadau, egwyddorion ac arferion perthnasol hunan-astudio gyda chymorth ac eglurir deilliannau dysgu disgwyliedig y modwl.

Dynodir tiwtor personol ar eich cyfer a fydd yn eich cynghori a'ch arwain ar amrywiaeth o agweddau. Defnyddir tiwtorialau i ymateb i unrhyw bryderon a allai fod gennych, i gynorthwyo gydag adfyfyrio a gwerthuso, defnyddio'r hyn a ddysgwyd, a darparu adborth ar unrhyw ddrafftiau a gyflwynwyd.

Cewch chi hefyd fanteisio ar amrywiaeth eang o adnoddau modwl ar-lein trwy dudalennau llyfrgell a Moodle, a chewch eich cyflwyno i Amgylchedd Dysgu Rhith-wir (ADRh) y Brifysgol a'r gwasanaethau cymorth cysylltiedig a fydd yn eich galluogi i fanteisio ar adnoddau o bell.

*Sut y cewch chi eich asesu?*
Mae dwy elfen asesu i'r modwl hwn. Yn gyntaf, portffolio sy'n cynnwys yr elfennau canlynol:

- Rhesymwaith dros y maes astudio yr ydych wedi ei ddewis, gan roi ei gyd-destun galwedigaethol a'i berthnasedd i'ch anghenion datblygiadol;
- Cynllun manwl eich rhaglen astudio;
- Adfyfyrio'n feirniadol ar eich profiad dysgu.

Yn ail, aseiniad ysgrifenedig, sy'n seiliedig ar ymchwil, dadansoddi'n feirniadol theorïau perthnasol, methodolegau a/neu arfer gorau, sy'n gwerthuso'n feirniadol effaith go iawn a phosibl dysgu cymhwysol ar arfer a pherfformiad proffesiynol, a chyflawni amcanion sefydliadol.

*Pwy sy'n ei addysgu?*
Nick Samuel (Arweinydd Modwl) a Mair O'Connor.

# HYFFORDDI A MENTORA

**Dyddiad dechrau:** dwywaith y flwyddyn, Tachwedd ac Ebrill
**Nifer y diwrnodau yn y Brifysgol:** 4 diwrnod, ynghyd â thiwtorialau
**Hyd:** 5 mis
**Credydau:** 30 credyd
**Lefel:** 7

### *Beth y byddwch chi'n ei ddysgu yn y modwl hwn?*

Byddwch yn astudio gwahanol theorïau hyfforddi a mentora ac yn datblygu dealltwriaeth fanylach o'r materion dan sylw ym mhrosesau ac arfer hyfforddi a mentora yn y gwaith. Yn ogystal, byddwch yn meithrin sgiliau wrth gynllunio a darparu rhaglen hyfforddi neu fentora yn y gweithle, gan roi sylw dyledus i unrhyw faterion moesegol a allai godi. Byddwch yn mynd ati i geisio adborth ar eich perfformiad yn hyfforddwr neu'n fentor a byddwch yn dadansoddi eich sgiliau'n feirniadol. Bydd hyn yn llywio'r cynllun datblygiad personol a luniwch gyda'r nod o gyfoethogi eich sgiliau, eich gwybodaeth a'ch profiad.

### *Sut y cewch chi eich cefnogi?*

Dynodir tiwtor personol ar eich cyfer a fydd yn eich cynghori a'ch arwain ar amrywiaeth o agweddau. Mae'r rhain yn ymateb i bryderon unigol, disgwyliadau modwl a darparu adborth ar unrhyw ddrafftiau a gyflwynwyd.

Cewch chi hefyd fanteisio ar amrywiaeth eang o adnoddau modwl ar-lein trwy dudalennau llyfrgell a Moodle, a chewch eich cyflwyno i Amgylchedd Dysgu Rhith-wir (ADRh) y Brifysgol a'r gwasanaethau cymorth cysylltiedig a fydd yn eich galluogi i fanteisio ar adnoddau o bell.

Llunnir y sesiynau a addysgir i roi i chi wybodaeth am hyfforddi a theorïau mentora, modelau ac arferion, a bydd pob sesiwn yn rhyngweithiol iawn i gynyddu'r profiad dysgu.

### *Sut y cewch chi eich asesu?*

Mae tair elfen i'r modwl hwn a bydd disgwyl i chi ddarparu tystiolaeth briodol ynghylch y canlynol:

- aseiniad ysgrifenedig sy'n dadansoddi'n feirniadol ystod o theorïau a phersbectifau ynghylch hyfforddi a mentora;
- sesiwn hyfforddi neu fentora a recordiwyd;
- dyddlyfr adfyfyriol sy'n cynnwys cynllun datblygiad personol.

### *Pwy sy'n ei addysgu?*

Annette Fillery-Travis, Mair O'Connor a Julie Crossman (Arweinydd Modwl).

## Barn Myfyriwr

***"Cafodd y cwrs hwn effaith fawr ac mae wedi newid sut rwy'n meddwl amdanaf fy hun a'm myfyrwyr fy hun."***

# MODWL ARWEINYDDIAETH

## a) Dilysrwydd a Rôl Arweinydd

**Dyddiad dechrau:** yn ôl yr angen
**Nifer y diwrnodau yn y Brifysgol:** 4
**Hyd:** 4 mis
**Credydau:** 30
**Lefel:** 7

### *Beth y byddwch chi'n ei ddysgu yn y modwl hwn?*

Cewch chi ymwybyddiaeth feirniadol o rôl dilysrwydd a hunan-reoli mewn arweinyddiaeth effeithiol sy'n ymgysylltu. Archwilir arddulliau arwain personol a'u cyferbynnu, defnyddio amrywiaeth o ddulliau hunan-asesu. Byddwch yn datblygu sgiliau adfyfyrio beirniadol i ddylanwadu'n fwy effeithiol ar gyfathrebu yn y gweithle ac archwilio amrywiaeth o theorïau arweinyddiaeth a'u perthnasedd i'ch gweithle. Byddwch hefyd yn adfyfyrio'n feirniadol ar eich arddulliau ac ymddygiadau personol, sgiliau rhyngbersonol a'u heffaith ar berthnasoedd gweithle. Yn olaf, byddwch yn creu cynllun datblygu personol gyda ffocws penodol ar sgiliau arwain.

### *Sut y cewch chi eich cefnogi?*

Cynhelir sesiynau gweithdy a fydd yn cyflwyno'r dysgwyr i'r cysyniadau, yr egwyddorion a'r arferion perthnasol. Cynhelir hefyd diwtorialau lle byddwn yn cyflwyno enghreifftiau ymarferol y gellir eu defnyddio i gefnogi'r cymhwyso, y trafod a'r gwerthuso. Bydd yr holl ddeunyddiau ar gael ar Moodle, sef ein hamgylchedd dysgu rhith-wir (ADRh).

### *Sut y cewch chi eich asesu?*

Dau aseiniad ysgrifenedig lle byddwch yn adfyfyrio'n feirniadol ar theorïau arweinyddiaeth a'ch arddull arwain eich hun.

### *Pwy sy'n ei addysgu?*

Steve Darnell yw'r arweinydd modwl ar gyfer y cyfresi modylau ar arweinyddiaeth gyda chymorth gan Julie Crossman a Nick Samuel.

### Barn Myfyrwyr

***"Yn rheolwr newydd, rwy'n meithrin dulliau, technegau a strategaethau nad oedd gen i'n flaenorol, gan ganiatáu i mi fod yn arweinydd mwy effeithiol nag y byddwn i, rwy'n credu, heb y cwrs hwn."***

***"Mae'r cwrs arweinyddiaeth wedi fy nysgu i fod yn fwy adfyfyriol mewn sefyllfaoedd. Rwy'n credu bod fy hyder wedi cynyddu wrth ymdrin â phenderfyniadau sy'n cynnwys staff. Rwy'n meddwl yn fwy fel arweinydd yn hytrach na phennaeth."***

# MODWL ARWEINYDDIAETH

## b) Arweinyddiaeth, Arweinyddiaeth a Gwytnwch

**Dyddiad dechrau:** yn ôl y gofyn
**Nifer y diwrnodau yn y Brifysgol:** 4
**Hyd:** 4 mis
**Credydau:** 30
**Lefel:** 7

*Beth y byddwch chi'n ei ddysgu yn y modwl hwn?*
Byddwch yn dysgu am ymwybyddiaeth feirniadol o ymagweddau at arweinyddiaeth mewn sefyllfaoedd o argyfwng a'r sgiliau sydd eu hangen i ddysgu oddi wrth argyfyngau. Byddwch hefyd yn dysgu i werthuso'n feirniadol yr elfennau perthnasol sy'n achosi straen ac yn argymell dulliau o reoli'r rhain er mwyn gwella gwytnwch a pherfformiad.

Trafodir hefyd y berthynas rhwng llywodraethu corfforaethol da a rheoli argyfyngau'n effeithiol ynghyd â phwysigrwydd cynnwys dysgu yn systemau ac arferion rheoli sefydliadau yn ogystal â dulliau priodol o gynnal strategaeth gyfathrebu effeithiol mewn sefyllfa argyfwng, gan gynnwys ymgysylltu â'r cyfryngau.

*Sut y cewch chi eich cefnogi?*
Cynhelir sesiynau gweithdy a fydd yn cyflwyno'r dysgwyr i'r cysyniadau, yr egwyddorion a'r arferion perthnasol. Cynhelir hefyd diwtorialau lle byddwn yn cyflwyno enghreifftiau ymarferol y gellir eu defnyddio i gefnogi'r cymhwyso, y trafod a'r gwerthuso. Bydd yr holl ddeunyddiau ar gael ar Moodle, sef ein hamgylchedd dysgu rhith-wir (ADRh).

*Sut y cewch chi eich asesu?*
Cewch chi eich asesu ar sail cyflwyniad llafar a chyflwyniad ysgrifenedig a fydd yn seiliedig ar astudiaeth achos o argyfwng. Bydd angen i chi graffu ar ddigwyddiadau strategol allweddol ac achosion straen perthnasol sy'n gysylltiedig â'r argyfwng, a gwneud argymhellion o ran gwella gwytnwch a pherfformiad.

*Pwy sy'n ei addysgu?*
Steve Darnell yw'r arweinydd modwl ar gyfer y cyfresi modylau ar arweinyddiaeth a chaiff ei gefnogi gan Julie Crossman.

### Barn Myfyriwr

***"Mae'r cwrs hyd yn hyn wedi datblygu fy nealltwriaeth o rôl y rheolwr, pwysigrwydd gweithio mewn tîm a phwyslais ar gynnwys staff. Mae rhai o'r dulliau rydyn ni wedi eu defnyddio wedi newid sut rwy'n gweithio, gan arwain at newidiadau llwyddiannus yn y gweithle sy'n werthfawr dros ben."***

***"Mae'r tiwtoriaid wedi bod yn groesawgar a chalonogol dros ben gydol y cwrs. Ni fu unrhyw beth yn ormod o waith. Bellach rwy'n teimlo'n hyderus iawn i wneud penderfyniadau gwybodus mewn byd sy'n newid byth a beunydd. Rwy'n gwybod y caiff hyn effaith gadarnhaol ar ddigwyddiadau'r dyfodol, prosiectau a'm gwaith cymunedol yn y dref."***

***"Diolch i chi'ch dau am y dysgu a'r help gydol y cwrs. Mae'r ddau ohonoch wedi bod yn wych, byddai'n amhosibl gofyn am well darlithwyr a chyd-ddysgwyr."***

***"Pleser pur oedd cael astudio gyda chi ac roedd pob sesiwn yn bleser yn ogystal â bod yn brofiad dysgu."***

# MODWL ARWEINYDDIAETH

## c) Arweinyddiaeth mewn Cynllunio a Chymhelliant

**Dyddiad dechrau:** yn ôl y gofyn
**Nifer y diwrnodau yn y Brifysgol:** 4
**Hyd:** 4 mis
**Credydau:** 30
**Lefel:** 7

### *Beth y byddwch chi'n ei ddysgu yn y modwl hwn?*

Byddwch yn dysgu sut i gynllunio a blaenoriaethu yn y gweithle, er mwyn hyrwyddo effeithlonrwydd ac ennyn diddordeb, cymell a datblygu'r tîm. Byddwch hefyd yn gallu gwerthuso'n feirniadol ddulliau cymhleth o gynllunio a blaenoriaethu a nodi dull perthnasol ar gyfer eich gweithle ac asesu amrywiaeth o bersbectifau damcaniaethol sy'n berthnasol i'r gwaith o sefydlu amgylchedd tîm cadarnhaol. Byddwch yn archwilio ac yn arfarnu'n feirniadol ddulliau o gymell perfformiad unigol a pherfformiad tîm ac yn archwilio modelau mentora a hyfforddi, a'r sgiliau sydd eu hangen i gyflawni'r rhain yn effeithiol.

### *Sut y cewch chi eich cefnogi?*

Cynhelir sesiynau gweithdy a fydd yn cyflwyno'r dysgwyr i'r cysyniadau, yr egwyddorion a'r arferion perthnasol. Cynhelir hefyd diwtorialau lle byddwn yn cyflwyno enghreifftiau ymarferol y gellir eu defnyddio i gefnogi'r cymhwyso, y trafod a'r gwerthuso. Bydd yr holl ddeunyddiau ar gael ar Moodle, sef ein hamgylchedd dysgu rhithwir (ADRh).

### *Sut y cewch chi eich asesu?*

Dau gyflwyniad ysgrifenedig lle'r ydych yn ymchwilio i theorïau priodol, er mwyn nodi tasg neu brosiect cymhleth yn y gweithle a pharatoi cynllun i fynd i'r afael â hyn a chyfiawnhau eich cynllun trwy werthuso'n feirniadol amrywiaeth eang o fodelau a dulliau.

### *Pwy sy'n ei addysgu?*

Steve Darnell yw'r arweinydd modwl ar gyfer y cyfresi modylau ar arweinyddiaeth a chaiff ei gefnogi gan Julie Crossman a Nick Samuel.

### Barn Myfyriwr

***"Mae'r cwrs arweinyddiaeth wedi fy ngalluogi i feddwl yn wahanol. Mae fy hyder wedi tyfu a bellach rwy'n arwain tasgau a ddirprwyir o ddydd i ddydd. Does dim ofn newid arna i, mae newid yn beth da."***

***"Mae'r cwrs arwain hwn wedi fy helpu i ddatblygu'n well arweinydd gan roi'r sgiliau i mi fy adnabod fy hun, fy nhîm a'm sefydliad."***

***"Rwy wrth fy modd yn rhan o'r cwrs arweinyddiaeth, nid yn unig mae'n ein haddysgu amdanom ein hunain, ond hefyd sut i reoli sefyllfaoedd nad ydym wedi eu hystyried eto. Does dim dwywaith amdani, mae'r cwrs hwn wedi fy helpu i fagu hyder a bydda i'n ddiolchgar dros ben am hynny."***

# MODWL ARWEINYDDIAETH

## d) Arweinyddiaeth a Newid

**Dyddiad dechrau:** yn ôl y gofyn
**Nifer y diwrnodau yn y Brifysgol:** 4
**Hyd:** 4 mis
**Credydau:** 30
**Lefel:** 7

*Beth y byddwch chi'n ei ddysgu yn y modwl hwn?*
Byddwch yn dysgu i archwilio'n feirniadol rôl arweinyddiaeth ar adegau o newid ac ansicrwydd er mwyn arwain newid o ran ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a chanfyddiad ac archwilio natur gymhleth yr heriau ar gyfer rôl arwain adeg newid sefydliadol.

Byddwch hefyd yn dysgu gwerthuso dylanwad diwylliant sefydliadol yng nghyd-destun mentrau newid a nodi a dadansoddi'n feirniadol amrywiaeth o strategaethau ar gyfer arwain newid yng nghyd-destun yr heriau i'r sefydliad oddi mewn. Byddwch yn defnyddio theorïau ynghylch rheoli newid, modelau diwylliant sefydliadol, ynghyd â thechnegau dadansoddi achosion gwreiddiol.

*Sut y cewch chi eich cefnogi?*
Cynhelir sesiynau gweithdy a fydd yn cyflwyno'r dysgwyr i'r cysyniadau, yr egwyddorion a'r arferion perthnasol. Cynhelir hefyd diwtorialau lle byddwn yn cyflwyno enghreifftiau ymarferol y gellir eu defnyddio i gefnogi'r cymhwyso, y trafod a'r gwerthuso. Bydd yr holl ddeunyddiau ar gael ar Moodle, sef ein hamgylchedd dysgu rhith-wir (ADRh).

*Sut y cewch chi eich asesu?*
Cyflwyniad llafar a chyflwyniad ysgrifenedig sy'n werthusiad beirniadol o broses ddiweddar ar gyfer newidiadau cymhleth yn y gweithle, gan ystyried digwyddiadau yng nghyd-destun amrywiaeth o theorïau a dulliau o newid sefydliadol, gan gynnwys pwysigrwydd rôl arweinyddiaeth wrth effeithio ar ganlyniadau cadarnhaol.

*Pwy sy'n ei addysgu?*
Steve Darnell yw'r arweinydd modwl ar gyfer cyfresi'r modylau arweinyddiaeth a chaiff Steve gymorth gan Julie Crossman a Nick Samuel.

### Dyfyniadau gan ddysgwyr blaenorol

***"Mae'r cwrs arweinyddiaeth wedi helpu i ddefnyddio modelau yn fy ngweithle a gweithredu ble bynnag y bo'n bosibl. Rwy wedi trafod â'r tîm staff pan oedd yn berthnasol."***

***"Rwy'n teimlo bod y cwrs wedi fy helpu i adfyfyrio ar sefyllfaoedd anodd."***

***"Mae'r cwrs hwn wedi rhoi i mi'r wybodaeth a'r sgiliau i wella fy sgiliau rheoli yn fy ngweithle. Yn rheolwr newydd mewn gwasanaeth newydd, mae pob un o'r sesiynau wedi dysgu gwersi gwerthfawr i mi am bopeth o gymell staff i nodi problemau a datrys materion go iawn sy'n cael effaith gadarnhaol ar fywydau defnyddwyr y gwasanaeth."***

***"Wrth i'r cwrs ddatblygu, rwy wedi sylwi bod gwelliannau diwylliannol a datblygiadau o ran ffyrdd o weithio."***

# CWESTIYNAU CYFFREDIN

*Oes rhaid i mi dalu fy ffioedd ar y dechrau?*
Nac oes, mae'n bosibl talu fesul modwl pan fyddwch yn dechrau pob un. Cysylltwch ag Ann Beaumont, ein Swyddog Gweinyddol i gael rhagor o arweiniad - **a.beaumont@uwtsd.ac.uk**

*Sut mae'r cymorth academaidd yn gweithio?*
Ym mhob un o'n modylau, bydd tiwtoriaid arbenigol yn darparu rhai modylau. Byddant wrth law i'ch cefnogi chi o ran darparu adborth ar waith ysgrifenedig yn ogystal ag ateb unrhyw gwestiynau am y gwaith academaidd. I gael cymorth wrth ddod i ddeall gofynion a systemau'r brifysgol cewch chi diwtor personol a fydd yn gallu eich cefnogi chi wrth i chi symud ymlaen trwy eich rhaglen.

*Oes rhaid i mi ddod i'r Brifysgol yn aml?*
Cewch chi ddewis gwneud eich rhaglen yn bennaf ar-lein gyda thiwtorialau rhith-wir neu cewch chi ddod i'n hystafelloedd hyfforddi ar gyfer gweithdai.

Os ydych yn rhan o garfan sefydliadol, yn aml byddwn yn gwneud trefniadau i ddod i'ch gweithdy.

*A fydd modd i mi wirio a ydw i ar y trywydd cywir gydag asesiadau cyn eu cyflwyno?*
Rhan o'n hethos arweiniol yw bod gan bob dysgwr gyfle i berfformio ar eu gorau. Golyga hyn ein bod yn darparu adborth ar ddrafftiau a chysyniadau cyn eu cyflwyno er mwyn i chi fod yn hyderus eich bod wedi rhoi cynnig da ar ddarn o waith cyn iddo gael ei farcio.

*Beth sy'n digwydd os ydw i'n cwympo y tu ôl neu'n methu un o'm modylau?*
Os cewch chi drafferth gorffen cyflwyniad, cysylltwch â'ch tiwtor cyn gynted ag y bo modd gan ei bod yn bosibl y byddant yn gallu rhoi gwybod a ddylech wneud cais am 'amgylchiadau esgusodol' i gyflwyno ar ddyddiad hwyrach, tarfu ar astudiaethau neu ei gyflwyno fel y mae. Os methwch un o'r modylau, mae gennych ddau gyfle arall ar lefel israddedig ac un arall ar lefel ôl-raddedig i gyflwyno, er y bydd y marc wedi ei gapio yn 40% i israddedigion a 50% i ôl-raddedigion.

*Oes gen i fynediad i'r llyfrgell a chardiau myfyrwyr?*
Mae gennych fynediad i'r holl adnoddau, yn yr un modd â holl ddysgwyr y Brifysgol ac fe allwch brynu carden Totum er mewn derbyn cynigion arbennig i fyfyrwyr!

*A fydd yna seremoni raddio?*
Ar ôl cwblhau eich rhaglen, byddwch yn graddio yn yr un seremoni â gweddill y Brifysgol ac yn gwisgo gŵn llawn. Gall eich teulu ddod (cyfyngiad o ddau le ar gyfer y seremoni ei hun, ond yn ogystal gall aelodau'r teulu wylio trwy sgrin y tu allan i'r theatr neu ar-lein drwy wefan y Brifysgol – **www.uwtsd.ac.uk**).

*Beth allem i ei wneud ar ôl graddio?*
Hefyd mae gennym darpariaeth amrywiol o ran hyfforddi a mentora gan gynnwys MA, modylau Datblygiad Proffesiynol Parhaus a Chymdeithas Hyfforddi sy'n darparu seminarau arbenigol.

# MA MEWN HYFFORDDI A MENTORA

*Pam gweithio gyda ni?*

Mae'r rhaglen MA mewn rhaglen Hyfforddi a Mentora yn darparu addysg ar lefel ôl-raddedig ac ymarfer hyfforddi a mentora i'r rhai sy'n datblygu arfer proffesiynol neu'r rhai sydd am ddatblygu arbenigedd mewn hyfforddi a mentora yn eu tasgau arweinyddiaeth neu adnoddau dynol.

Bu datblygu hyfforddiant yn faes arbenigedd i'r Academi gyda'r uwch gyfadran megis yr Athro Stephen Palmer, Dr Peggy Marshall a Dr Annette Fillery-Travis yn ogystal â bod yn gartref i grŵp ymchwil ffyniannus o ymgeiswyr PhD a Doethuriaeth Broffesiynol yn ogystal ag awduron. Mae hefyd yn gartref i'n Cymdeithas Hyfforddi, cymuned ymarfer ar gyfer ymarferwyr o ysgolheigion hyfforddi sydd â diddordeb mewn adeiladu'r corff gwybodaeth ar gyfer y proffesiwn a chynnal seminarau arbenigol a chynhadledd flynyddol. Trwy ei haelodau, mae'r Gymdeithas wedi cyfrannu i ddatblygiad safonau i'r proffesiwn a gwaith y Cyngor Mentora a Hyfforddi Ewropeaidd, Cymdeithas Fyd-eang Hyfforddwyr Busnes a'r Confensiwn Hyfforddi Byd-eang. Ar hyn o bryd mae aelodau'r Gymdeithas wrthi'n gwreiddio diwylliannau hyfforddi mewn sectorau mor amrywiol â'r trydydd sector ac addysg. Mae'r MA mewn Hyfforddi a Mentora yn manteisio ar y profiad hwn ac o'r herwydd yn rhoi i chi sicrwydd ansawdd o ran y ddarpariaeth a'r staff.

Yn benodol, mae'r Academi yn defnyddio'r dystiolaeth a'r ymchwil ddiweddaraf yn seiliedig ar arfer er mwyn cymhwyso hyfforddi o fewn sefydliadau i ddiwallu anghenion uwch reolwyr a hyfforddwyr allanol / mewnol o fewn y sectorau masnachol a chyhoeddus.

## Sut y byddwn yn gweithio gyda chi

Rhaid i hyfforddiant mewnol ac allanol adlewyrchu anghenion sefydliad(au), diwylliant ac adnoddau eu cleientiaid gan sicrhau ei fod hefyd yn cyd-fynd â'r strategaeth gyffredinol. Yr athroniaeth wrth wraidd y rhaglen hon yw bod yr hyfforddwr yn gweithredu fel hwylusydd dysgu unigol oddi mewn i'r gweithle i gyflawni effaith ar lefel ryngbersonol a sefydliadol. Defnyddir egwyddorion dysgu seiliedig ar waith i alluogi hyfforddwyr i ddatblygu model ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n gyson â diwylliant a fframwaith arwain y sefydliad. Mae'r cymhwyster MA yn rhan o Fframwaith Arfer Proffesiynol addysg uwch, sydd wedi ei ddylunio i ddatblygu a chydnabod yr hyn a ddysgir ar lefel uwch ac a ddangosir trwy ddulliau sy'n seiliedig ar ymarfer.

## Strwythur y Rhaglen

Mae modwl cyntaf y rhaglen yn cynnwys cyfres o weithdai a addysgir lle caiff dysgwyr gyfle i archwilio sail ddamcaniaethol hyfforddi a'r dulliau sy'n gallu llywio model arfer rhesymegol.

Wrth ddatblygu eich gwybodaeth am fodelau arfer hyfforddi, byddwch yn archwilio sut mae gweithwyr proffesiynol yn dysgu, seiliau seicolegol hyfforddi a fframiau megis deallusrwydd emosiynol ac ysbrydol.  Byddwch wedi cael cyfle i ddatblygu eich sgiliau arfer trwy hyfforddi cymheiriaid gan fynd yn eich blaen i ddatblygu eich sylfaen cleientiaid yn fewnol gyda goruchwyliaeth briodol.

Yn yr ail fodwl, cewch chi gyfle i archwilio amrywiaeth o bynciau hyfforddi'n fanwl gydag arweinwyr o fri mewn cyfres o seminarau hanner diwrnod. Trwy ymgysylltu â'r arweinwyr meddwl hyn mae'n bosibl dyfnhau sgiliau ac adfyfyrio wrth ymarfer. Yn y trydydd modwl, byddwch yn estyn eich ffocws y tu hwnt i'r personol ac yn archwilio cyd-destun yr hyfforddi o ran newid sefydliadol. Mewn gweithdai, byddwch yn archwilio sail newid systematig a rôl yr unigolyn yn alluogydd.

Gan ddilyn y pedwerydd a'r pumed modwl, byddwch yn dylunio ac wedyn yn dilyn prosiect seiliedig ar waith a fydd yn caniatáu i chi adfyfyrio ar eich ymarfer sy'n datblygu, ac ymchwilio i faes ymarfer yn fanylach. Dyluniwyd y prosiect hwn gennych chi i'ch caniatáu i ddilyn eich awch a sicrhau'r effaith fwyaf o'r hyn a ddysgwch.

## Opsiwn Llwybr Cyflym

Ar gyfer hyfforddwyr profiadol mae cyfle i hawlio credydau am ddysgu blaenorol yn y maes. Enghreifftiau o'r math o ddysgu y gellir ei gydnabod yw cymwysterau ILM lefel 7 a/neu oriau ymarfer yn y maes.  Gellir defnyddio'r credyd hwn wedyn yn hytrach na dilyn rhai o'r modylau. Os ydych yn credu y gallech fod mewn sefyllfa i fanteisio ar yr opsiwn 'llwybr cyflym' ar gyfer yr MA, trafodwch hynny gyda'r tîm cyn gwneud eich cais i ymuno â'r rhaglen.

### Mae'r Dulliau Dysgu yn cynnwys:

- modylau gan gynnwys 15 diwrnod o weithdai gyda llawlyfrau priodol (gan gynnwys gwaith triawd a dosbarthiadau meistri);
- llwyfan ddysgu ar-lein;
- Grwpiau Dysgu Gweithredol;
- gwaith hyfforddi cyfoedion ym modwl 1 gan symud i waith cleientiaid ym modylau 2 a 3 (o dan oruchwyliaeth);
- goruchwylio grwpiau (posibilrwydd o rannu hyn â hyfforddwyr oddi mewn i'ch sefydliad yn rhan o'r gwerthuso).

Byddai pob un o'r rhain yn ddigon o ran ei hyd a'i ansawdd i fodloni meini prawf cymdeithasau proffesiynol (EMCC/WABC) ar gyfer Rhaglenni Uwch-ymarferwyr.

### Cyflawnir yr asesu trwy'r canlynol:

- adroddiad adfyfyriol o'ch arfer a'r egwyddorion sy'n ei lywio;
- astudiaeth ymchwil hyfforddi a chyflwyniad;
- cwblhau oriau hyfforddi/goruchwylio (safonau EMCC/ WABC a gofynion sefydliadol)

# Y GYMDEITHAS HYFFORDDI

**Mae Cymdeithas Hyfforddi yr Academi yn ganolfan ledled Cymru ar gyfer ymchwil hyfforddi a datblygu arfer. Rydym yn croesawu dechreuwyr ac arbenigwyr fel ei gilydd – dewch i ymuno â ni!**

### Manteision
### Mae aelodaeth o'n Cymdeithas Hyfforddi yn rhoi cyfle i chi fanteisio ar amrywiaeth o fuddion:

- diweddariadau rheolaidd ar yr ymchwil a'r datblygiadau diweddaraf ym maes hyfforddi a mentora;
- cyfleoedd i rannu arfer gorau gydag ymarferwyr hyfforddi a mentora eraill;
- mynediad i adnoddau ar-lein gan gynnwys cylchgronau, erthyglau a phapurau academaidd gan arweinwyr yn y maes;
- ffioedd cynhadledd gostyngol;
- mynediad gostyngol i gyfresi blynyddol o seminarau ar themâu;
- cyfleoedd rhwydweithio.

### Seminarau ar Themâu ar gyfer 2019*
### Y thema ar gyfer hanner cyntaf eleni oedd "Dulliau o Hyfforddi" ac roedd pedwar seminar hanner diwrnod.

- Hyfforddiant Naratif gyda Dr Daniel Dougherty (Grŵp Ymchwil Hyfforddi Beirniadol);
- Niwrowyddoniaeth a Hyfforddi gyda Dr Peggy Marshall (Nationwide US);
- Hyfforddi Goruchwyliol Sam Humphrey (Psfi Ltd);
- Cyflwr Ymchwil Hyfforddi gyda'r Athro Cysylltiol Annette Fillery-Travis (Pennaeth yr Academi).

I wneud cais am aelodaeth, cysylltwch â:
**coaching@pcydds.ac.uk**

# RHAGLENNI DOETHUR

**Mae gan Academi enw da rhyngwladol am addysg ddoethur a dylunio ei heffaith ar yr ymgeisydd a'i weithle.**

Mae ein prif staff, yr Athro Stephen Palmer, Dr Annette Fillery-Travis a Dr Christine Davies, ymhlith yr ymchwilwyr mwyaf cynhyrchiol a ddyfynnir yn aml ym maes hyfforddi, mentora, seicoleg hyfforddi, straen a llesiant, dysgu proffesiynol, addysg ddoethur, e-ddysgu a newid sefydliadol gan gynnal ar yr un pryd ffocws cywir ar anghenion eu hymgeiswyr doethuriaeth.

Mae'r Athro Stephen Palmer wedi ysgrifennu dros 50 o lyfrau, a nifer o gyhoeddiadau a adolygwyd gan gymheiriaid, ac mae Dr Annette Fillery-Travis wedi cyhoeddi a bod yn rhan o brosiectau'r UE gan gynnwys arwain un ar arfer gorau mewn goruchwyliaeth ddoethurol ynghyd â phrosiect Horizon 2020 ar e-ddysgu. Nid yn unig mae Annette wedi datblygu gweledigaeth unigryw'r Academi yn gartref ar gyfer creu a beirniadu ymchwil cymhwysol ond mae hi hefyd wedi hyfforddi goruchwylwyr doethuriaeth ledled Ewrop yn ei ddatblygiad. Mae gan Dr Christine Davies ddiddordeb penodol mewn ymchwil pedagogaidd a gwella profiad myfyrwyr yn ystod eu rhaglen.

Roedd eu cyn-fyfyrwyr yn cynnwys arweinwyr meddwl ym maes hyfforddi a mentora, megis:
Dr Alison Hodge, Dr Lise Lewis, Dr Catherine Carr, Dr Jacqueline Peters a Dr Stephen Bardon.

Darpara'r Academi dîm goruchwylio ymroddedig i bob myfyriwr sy'n gallu rhoi gwybodaeth flaengar yn eich maes chi trwy arfer goruchwylio ardderchog. Gwna hyn drwy fanteisio ar gyfadrannau ategol o brifysgolion ledled y byd.

## Pam astudio gyda ni?

1. Mae ein profiad goruchwyliol yn un helaeth ac mae gennym gyfradd cwblhau glodwiw wrth i ni ymdrin â phob dysgwr yn unigolyn aeddfed sydd â galwadau sylweddol ar eu hamser;
2. Mae ein hymgeiswyr yn cyfarfod â'i gilydd yn rheolaidd yn ystod y ddwy flynedd gyntaf a'r tu hwnt. Rydym yn eu hannog i greu cymuned sy'n cefnogi eu gwaith;
3. Rydym yn darparu rhaglen weithdy ac asesu lawn sy'n canolbwyntio ar gynnig yr hyn sydd ei angen arnoch er mwyn cynnal eich ymchwil;
4. Caiff ein hymgeiswyr gymorth i gyhoeddi a chyflwyno mewn cynadleddau. Yn 2019, cyhoeddodd y gymuned dysgwyr DProf dri llyfr ac annerch nifer o gynadleddau;
5. Mae eich panel goruchwylio wedi ei ddylunio ar gyfer eich anghenion a gall/bydd yn cynnwys academyddion o brifysgolion eraill pe bai rhain sy'n gweddu i'ch gwaith orau (wedi ei gynnwys yn eich ffioedd);
6. Caiff eich astudiaethau eu holrhain yn ganolog felly gallwch fod yn hapus eich bod yn gwneud cynnydd da;
7. Mae gennych bwyllgor staff/ymgeiswyr sy'n caniatáu i chi ddod ag unrhyw anawsterau neu gyfleoedd anacademaidd i'r gyfadran er mwyn mynd i'r afael â nhw'n gyflym.

Chi sy'n rheoli eich taith ddoethurol felly gallwch fod yn hyderus y bydd eich profiad yn caniatáu i chi gyflawni eich dyheadau a chael yr effaith a ddymunwch.

Mae dau lwybr tuag at eich doethuriaeth yn dibynnu ar eich gweledigaeth a'ch anghenion – y Ddoethuriaeth Broffesiynol - DProf a'r Ddoethur mewn Athroniaeth - PhD. Arweinia'r naill a'r llall at yr un canlyniad, ond mae'r llwybr at y ddoethuriaeth yn wahanol a bydd yn gweddu i wahanol fathau o ymchwil a dyheadau gan fyfyrwyr. Yn rhan o'n cyswllt cychwynnol, byddwn yn cymryd ychydig amser i ystyried gyda chi'r ffordd orau o gyflawni'r hyn yr hoffech ei wneud. Yn y tudalennau nesaf, byddwn yn trafod eu nodweddion unigol yn gyffredinol. I drafod eich dyheadau a'ch anghenion, cysylltwch â Dr Christine Davies ar **christine.davies@uwtsd.ac.uk** i wneud apwyntiad ar gyfer trafodaeth gychwynnol am wybodaeth

# Y DDOETHURIAETH BROFFESIYNOL

## Cyflwyniad

**Mae'r Ddoethuriaeth mewn Arfer Proffesiynol (DProf) yn integreiddio astudiaethau rhan-amser ar lefel doethuriaeth a datblygiad proffesiynol parhaus, ac mae'n ffordd ddelfrydol o sicrhau doethuriaeth wrth gynnal ymrwymiadau proffesiynol.**

Rhaglen yr Academi yw un o'r ychydig raglenni DProf generig sy'n bodoli ar draws y byd, ac mae mewn sefyllfa unigryw i ddarparu ar gyfer amrywiaeth eang o gefndiroedd proffesiynol a phynciau ymchwil. Mae'r Rhan 1 a addysgir yn cynnwys astudio mewn amgylchedd grŵp cefnogol, sy'n agwedd unigryw a gwerthfawr arall ar y rhaglen.

Mae Rhan 1 o'r rhaglen (180 credyd) yn helpu ymgeiswyr i adolygu eu dysgu proffesiynol ac adeiladu sgiliau ymchwil. Yn Rhan 2 darperir cymorth ar gyfer prosiect ymchwil pwysig seiliedig ar waith.

## Gofynion Mynediad

Mae'r rhaglen yn agored i ymarferwyr sydd ag o leiaf bum mlynedd o brofiad o rôl broffesiynol sylweddol, ac sy'n meddu ar radd ail ddosbarth uwch, ac yn ddelfrydol, radd Meistr neu gyfwerth yn ogystal.

## Cydrannau'r Rhaglen

**Rhan 1 (180 credyd; hyd tua 2 flynedd, rhan-amser):**

Mae hyn yn cynnwys nifer o fodylau ar lefel 7, gan ddechrau gyda'r ddau fodwl 30-credyd canlynol:

- 'Dulliau o gynnal Ymchwil a Chyfathrebu Academaidd';
- 'Adolygu Dysgu Proffesiynol'.

Darpara modylau eraill gefndir trwyadl i agweddau meintiol ac ansoddol ar fethodoleg ymchwil, ynghyd ag agweddau pellach ar ddysgu proffesiynol, a llunia ymgeiswyr hefyd gynnig ar gyfer eu prosiect ymchwil seiliedig ar waith. Gall fod yn bosibl achredu dysgu blaenorol mewn rhai achosion.

**Rhan 2 (360 credyd; hyd tua 3-4 blynedd, rhan-amser):**

Mae'r rhan hon o'r rhaglen yn canolbwyntio ar brosiect ymchwil pwysig seiliedig ar waith, gan arwain at lunio traethawd ymchwil 60,000 o eiriau.

## Darparu Rhaglenni

Fel arfer, darperir dau fodwl Rhan 1 mewn gweithdai preswyl deuddydd yn ystod y Gwanwyn a'r Hydref ar gampws Y Drindod Dewi Sant yn Llambed, ac mae'r rhain yn cynnwys astudio mewn grŵp bach. Darperir cymorth pellach trwy fynd i'r llyfrgell ar-lein a'r Amgylchedd Dysgu Rhith-wir. Astudir modylau eraill trwy gyfuniad o astudio hunangyfeiriol gyda chymorth ar-lein a chymorth tiwtoriaid, ynghyd â seminarau ar gampws Caerfyrddin. Defnyddir technolegau megis Skype mewn seminarau i sicrhau bod modd i ymgeiswyr nad yw hi'n hawdd iddynt deithio i Gaerfyrddin, fanteisio arnynt. Fel arfer, bydd Rhan 2 yn dechrau gyda chwrs preswyl deuddydd (ac felly, cyfanswm o dri gweithdy preswyl), ac wedyn bydd cyswllt misol â thîm o oruchwylwyr ymchwil.

## Asesu

Mae i bob modwl ei elfen asesu ei hun sy'n cynnwys cyfuniad o gyflwyniad, portffolio, ac adroddiadau ysgrifenedig neu draethodau. Ar ddiwedd Rhan 2, disgwylir y bydd ymgeiswyr wedi cynhyrchu traethawd ymchwil 60,000 gair sy'n seiliedig ar eu prosiect ymchwil a ddylai gyfrannu at arfer proffesiynol unigolion a datblygiad strategol eu sefydliadau. Unwaith y bydd y traethawd ymchwil wedi ei archwilio a'i gymeradwyo, bydd ymgeiswyr wedi cyflawni 540 o gredydau a'r cymhwyster DProf, ynghyd â'r teitl 'Dr'. Gall fod 'mannau gadael' posibl eraill o'r rhaglen, ac mae trosglwyddo i'r rhaglen MProf hefyd yn opsiwn.

## Ffioedd

Mae bwrsarïau hepgor ffioedd ar gael i'r holl ymgeiswyr sy'n byw yng Nghymru. Gall benthyciadau doethurol fod ar gael i drigolion y DU **www.gov.uk/doctoral-loan**. Gellir talu'r holl ffioedd fesul rhandaliad. Sylwer y gallai costau fod yn is lle mae'n bosibl achredu dysgu blaenorol – cysylltwch i drafod y manylion.

# DOETHURIAETH (PHD)

**Yn achos llwybr arall y radd ddoethurol, nid oes angen i'r myfyriwr fod yn gyflogedig a gellir ei ddilyn ar ffurf cwrs rhan-amser neu amser llawn.**

Mae ffocws yr ymchwil ar ddatblygu gwybodaeth academaidd (i'w chyffredinoli) ac mae'n ymwneud yn llai â chyd-destun y gwaith h.y. y gweithle. Mae wedi ennill ei phlwyf yn 'brentisiaeth' i'r rhai sydd am ddod yn ymchwilwyr proffesiynol er bod mwy a mwy o ymarferwyr yn ei ddilyn sy'n chwilio am ddull ymchwil haws ei gyffredinoli.

## Y Rhaglen

Cyflwyna darpar ymgeiswyr gynnig ar gyfer prosiect ymchwil. Yn dilyn cymeradwyaeth, dyrennir i chi dîm goruchwylio o ddau neu dri aelod priodol o'r staff o dan arweiniad Cyfarwyddwr Astudiaethau. Gyda'r tîm hwn byddwch yn dechrau ar ymchwil estynedig i'ch pwnc, gan lunio traethawd ymchwil ysgrifenedig. Mae hefyd opsiwn ymchwil seiliedig ar arfer, sy'n arwain at draethawd ysgrifenedig byrrach ynghyd â chorff sylweddol o waith ymarferol. Mae gan bob myfyriwr ymchwil gyfle i gymryd rhan mewn digwyddiadau hyfforddiant ymchwil, ac Ysgol Haf y Brifysgol.

Cynigiwn raddau ymchwil ar ddull rhan-amser ac amser llawn ac anelwn at ddenu amrywiaeth o bobl o ymchwilwyr gyrfa gynnar i ymarferwyr canol gyrfa y mae angen eu hysbrydoli a rhoi cyfle iddynt adnewyddu eu persbectif. Rydym hefyd yn croesawu ymchwilwyr diwedd gyrfa sydd â'r cyfle o'r diwedd i ddilyn y syniad gwych sydd ganddynt. Os hoffech glywed rhagor am y cyfleoedd cyffrous sydd ar gael trwy ein rhaglen graddau ymchwil, cysylltwch â Dr Annette Fillery-Travis ar **a.fillery-travis@pcydds.ac.uk** i drefnu apwyntiad.

# OPSIYNAU ADDYSG SWYDDOGION GWEITHREDOL

Mae gan yr Academi hefyd amrywiaeth o opsiynau addysg gweithredol i fodloni anghenion uwch arweinwyr a rheolwyr yn y maes. Darperir y cyrsiau hyn naill ai mewn carfannau prifysgol neu yn y Brifysgol, rhoddant i swyddogion gweithredol y sgiliau proffesiynol a'r technegau sydd eu hangen i arwain eu pobl i gyflawni effaith go iawn a llwyddiant.

Wedi eu darparu trwy weithdai hanner diwrnod neu ddiwrnod llawn, gellir darparu'r cyrsiau hyn trwy amrywiaeth o fformatau i ddiwallu eich anghenion.

- **Cyflwyniad i Hyfforddi neu Fentora** – cyflwyniad byr i gynnal sgyrsiau byr i gael y gorau o'ch pobl;
- **Cael Sgyrsiau Anodd** – does neb yn hoffi cael sgyrsiau heriol ond gall y cwrs byr hwn eich helpu chi i'w gwneud yn dda a chyflawni'r canlyniadau priodol i'r naill barti a'r llall;
- **Asesiadau Canfyddiadau** – gall dysgu am ddewisiadau ei gilydd ym maes cyfathrebu a llunio penderfyniadau wneud gwahaniaeth go iawn i effeithiolrwydd tîm;
- **Hwyluso Dysgu Gweithredol** – rhoi i'ch pobl ddull grymus sy'n bodoli ers tro i gynyddu eu meddwl ac arloesi i ddatrys y problemau anniben hynny;
- **Defnyddio Ymchwil** – mae angen i chi wybod am yr ymchwil mwyaf cyfredol a chyfoes yn eich maes ond sut ydych chi'n gwybod beth sy'n dda a beth sy'n waeth? Bydd ein tîm yn eich tywys trwy broses sydd wedi ei threialu a'i rhoi ar brawf i'ch galluogi i wneud yn fawr o waith ymchwil.

I gael sgwrs am sut y gallai'r opsiynau hyn weithio i'ch cwmni chi: **n.samuel@pcydds.ac.uk**

# CYNIGION ACHREDU I SEFYDLIADAU

*Beth yw achredu?*
Diffinnir achredu yn y modd canlynol:
***"Y ffaith o gael eich cydnabod, eich derbyn, neu eich cymeradwyo'n swyddogol, neu'r weithred o gydnabod, derbyn neu gymeradwyo rhywbeth yn swyddogol."***

## Proses achredu'r Academi
Mae'r Brifysgol, trwy'r Academi, yn darparu ar gyfer achredu dysgu allanol a datblygu rhaglenni mewn dau gyd-destun:
1. rhaglenni dysgu a datblygu mewnol cyflogwyr;
2. achredu rhaglenni dysgu a datblygu masnachol.

(Yn ogystal, mae cyfleoedd i sefydliadau masnachol weithio'n gydweithredol â'r Academi i ddarparu rhaglenni AU.

## 1. Achredu rhaglenni dysgu a datblygu masnachol mewnol cyflogwyr
Mae tueddiadau cryf tuag at atebion dysgu a gynhyrchir ac a ddarperir yn fewnol, gyda "rhaglenni datblygiad mewnol ymhlith y tri dull dysgu mwyaf cyffredin a ddefnyddir".

Mae'r dull hwn o ddysgu yn parhau i dyfu o ran poblogrwydd, oherwydd ei berthnasedd ac uniongyrchedd dysgu cymhwysol yn y gweithle. Mae hefyd wedi arwain at gynnydd mewn diddordeb a dymuniad mewn achredu'r rhaglenni hyn gan sefydliadau academaidd.

## Manteision achredu
Rhai o'r manteision i chi'n gyflogwyr yw:
- cydnabod a chadarnhau ansawdd eu rhaglenni mewnol;
- bri gweithio gyda sefydliad academaidd uchel ei barch;
- gwerth ychwanegol at ddysgu;
- cadw ffocws ar ddysgu sy'n berthnasol i'r gweithle.

Rhai o'r manteision i'ch dysgwyr yw:
- credydau y gellir eu trosglwyddo;
- cymhelliant i barhau datblygiad personol a/neu addysg uwch;
- dysgu sy'n berthnasol ac ystyrlon i'w gwaith;
- dysgu sy'n cyfrannu i'w twf a'u datblygiad personol.

*Pa fath o gyrsiau/rhaglenni dysgu y gellir eu hachredu?*
Cewch wneud cais i achredu eich cyrsiau/rhaglenni dysgu mewnol ar yr amod:
- eich bod yn cael eu darparu rhwng lefelau 4 a 7;
- bod ganddynt werth credyd o leiaf 20 credyd ac uchafswm o 40;
- eu bod yn cynnwys proses asesu ddiffiniedig.

*Beth yw'r broses?*
Mae dull graddedig clir na ddylai gymryd yn hwy na 6 mis ac fel arfer mae'n cymryd amser byrrach. Cewch gymorth bob cam o'r ffordd gan fentor ymroddedig.

## 2. Achredu rhaglenni dysgu a datblygu masnachol
Mae'r Brifysgol yn cydnabod y gallai rhai sefydliadau geisio achredu cyrsiau dysgu a datblygu penodol yr hoffent eu cynnig ar sail fasnachol. Tuedda'r cyrsiau fod yn benodol i'r sector, ac yn gysylltiedig â datblygiad proffesiynol parhaus.

Mae'r cyfleoedd a nodwyd ym maes gweithio gyda:
- sefydliadau sydd wedi sefydlu eu cwrs dysgu eu hunain sy'n benodol i sector, a ddarparwyd yn fewnol yn flaenorol ac sydd bellach yn dymuno cael eu hachredu am ddarpariaeth fasnachol i sefydliadau oddi mewn i'w sector eu hunain;
- sefydliadau sydd wedi nodi'r angen am ddysgu a datblygiad penodol i'r sector mewn maes pwnc penodol, ac sy'n dymuno datblygu cwrs achrededig i ddarparu hyn yn fasnachol;
- hyfforddi a datblygu sefydliadau sy'n dymuno ychwanegu gwerth marchnata a bri trwy achredu rhaglenni pwrpasol y maent yn eu datblygu ar gyfer eu cleientiaid.

Mae gweithio gyda sefydliadau yn y modd hwn yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r Brifysgol am ei fod yn "darparu cyfleoedd i gyflogwyr a'u gweithwyr uwchsgilio ac ennill cymwysterau sy'n seiliedig ar anghenion penodol eu busnesau".

## Manteision achredu
Mae'r manteision i ddarparwyr masnachol y mae eu cyrsiau wedi eu hachredu yn cynnwys:
- gwell cyfleoedd marchnata oherwydd bri cwrs sydd wedi ei achredu gan Brifysgol;
- deunyddiau hyfforddi, darparu ac asesu o ansawdd gwell;
- sicrwydd ansawdd annibynnol.

*Pa fath o gyrsiau/rhaglenni dysgu y gellir eu hachredu?*
Caiff darparwyr masnachol wneud cais i achredu eu cyrsiau/rhaglenni dysgu mewnol ar yr amod:
- eu bod yn cael eu darparu rhwng lefelau 4 a 7;
- bod ganddynt werth credyd o leiaf 20 credyd ac uchafswm o 40;
- eu bod yn cynnwys proses asesu a ddiffinnir.

## Gweithdrefn achredu rhaglenni dysgu a datblygu masnachol

Ar gyfer rhaglenni masnachol, mae angen dilyn dull cadarnach na'r un a ddilynir i achredu rhaglenni mewnol. Felly, yn ogystal â'r weithdrefn a ddefnyddir uchod, mae angen diwydrwydd dyledus mewn meysydd cyfreithiol, ariannol ac academaidd. Mae hyn yn helpu nid yn unig i gynnal safonau ansawdd academaidd y Brifysgol, ond hefyd i amddiffyn ei henw da wrth achredu rhaglen fasnachol, a sicrhau y caiff dysgwyr brofiad cadarnhaol. Mae rhaglenni masnachol yn amodol ar gontract a monitro agos ar weithdrefnau marchnata, gweinyddu, darparu ac asesu staff yr Academi a fydd yn gweithredu'n wirwyr allanol.

Pum mlynedd fydd y cyfnod achredu yn amodol ar lynu'n foddhaol wrth delerau ac amodau cytundebol gan y naill barti a'r llall.

## Darpariaeth Gydweithredol Fasnachol

Cyfeiria Darpariaeth Gydweithredol Fasnachol at sefydliadau sector masnachol sy'n gweithio'n gydweithredol â'r Academi i gyflawni rhaglenni AU.

Fel rheol, gweithredir y sefydliadau hyn yn annibynnol gan bobl sy'n gymwys ac sy'n brofiadol wrth ddarparu AU ac sydd wedi datblygu cyrsiau/rhaglenni y gellir eu hymgorffori yn Rhaglenni/Llwybrau AU cyfredol.

## Rhaglenni Cydweithredol

Fel arfer, caiff rhaglenni arfaethedig eu strwythuro o gwmpas cymwysterau Tystysgrif AU, Diploma neu MA Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, ac ymgorffori meysydd astudio/pynciau proffesiynol ym modylau'r Academi.

## Y Weithdrefn ar gyfer Cymeradwyo Darpariaeth Gydweithredol Fasnachol

Gwneir cais i gymeradwyo darpariaeth gydweithredol fasnachol rhaglen ddysgu AU trwy gyflwyno ffurflen gais gan gydweithredwyr posibl, llunio cytundeb lefel gwasanaeth rhwng y sefydliad cydweithredol a'r Academi, a chontract cyfreithiol.

## Costau

Rhoddir manylion y costau sy'n gysylltiedig â'r broses o wneud cais a llunio contract ar gais.
Nodir y costau sy'n gysylltiedig â rhaglenni penodol yn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth a/neu'r contract.

I ddechrau sgwrs am sut y gallai'r opsiynau hyn helpu eich cwmni chi, anfonwch e-bost at: **m.oconnor@pcydds.ac.uk**

# YMGYNGHORI

Cynigia'r Academi wasanaeth ymgynghori i ddiwallu anghenion eich sefydliad.

Mae ein cynnig yn cynnwys:

- darparu rhaglenni hyfforddi i fodloni eich anghenion strategol ym maes arweinyddiaeth, rheoli a sgiliau o radd uwch;
- prosiectau ymchwil a gwerthuso ym maes elwa ar fuddsoddiad ac effeithiolrwydd sefydliadol ac effaith.

## Hyfforddiant a Datblygiad

Nid ydym yn darparu atebion parod ar gyfer datblygiad gweithwyr gan ein bod yn gwybod bod angen i'r gwaith o reoli doniau gyd-fynd â'ch strategaeth a'ch gweledigaeth sefydliadol. Rydym wedi gweithio gydag amrywiaeth o sefydliadau a sectorau i ddatblygu rhaglenni sy'n addas i'w pobl a'u diwylliant sefydliadol.  Ymhlith yr enghreifftiau mae tai cymdeithasol gyda chwmnïau o bwys megis Fieldbay a Coastal Housing yn ogystal â'r sector cyhoeddus megis Cyngor Sir Caerfyrddin. Ym mhob achos darparwn amrywiaeth o fodylau sy'n diwallu anghenion eu gweithwyr o gyfraith tai cymdeithasol i reoli prosiectau.

## Ymchwil a Gwerthuso

Yn ganolfan ar gyfer ymchwil gymhwysol, mae gennym gryn arbenigedd ynghylch gwerthuso ac ymchwilio mewn sefydliadau. Pa un ai ydych am i ni archwilio effeithiolrwydd ad-drefniad neu roi canfyddiad ar faes gwaith arbenigol mae gennym fframwaith ddylunio a fydd yn caniatáu i ni gyd-gynhyrchu ateb cadarn ond cost-effeithiol.

## Sut rydym yn gweithio gyda chi

Dyrennir Cyswllt Arweiniol i chi yn yr Academi. Bydd yr unigolyn hwn yn gyfrifol am sicrhau y cwblheir pob agwedd ar yr ymgynghori a'r ddeialog gychwynnol ynghylch trefniadau, dyddiadau terfynol, ffurf adroddiadau ac ati mewn da bryd. Bydd yr Arweinydd yn hwyluso cyd-ddatblygiad unrhyw holiaduron neu gwestiynau cyfweld a hwn fydd eich pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer unrhyw ymholiad ynghylch y gwerthuso.

Unwaith y bydd y gwaith wedi dechrau, bydd yr Arweinydd ar gael i gynnal adolygiadau cyfnodol ar ei gynnydd ac adrodd ar y canfyddiadau cychwynnol.

Fel arfer, byddai'r Academi yn negodi contract â chi, gan roi manylion hyd yr ymgynghori, trosolwg ar y gwaith arfaethedig, yr aelodau staff dan sylw, y ffurf y cytunir arni ar gyfer yr allbwn, ynghyd â'r gost gyffredinol a'r telerau tâl.

I gael trafodaeth lawnach ar gyfer eich gofynion, cysylltwch â Nick Samuel ar n**.samuel@pcydds.ac.uk**

# CWRDD Â'R TÎM



## Annette Fillery-Travis

**Mae Dr Annette Fillery-Travis yn uwch addysgwr, hyfforddwr hyfforddwyr ac awdures sydd ag awch am ddatblygu pobl. Yn ei gyrfa gyntaf yn wyddonydd ymchwil, hi oedd cadeirydd benywaidd cyntaf Grŵp Bwyd y DU a deiliad grant y cyngor ymchwil/UE ym maes bioffiseg ac Athro Gwadd yn Sante Fe yr Ariannin.**

Arweiniodd ei diddordeb yn natblygiad ei myfyrwyr doethurol hi i symud i addysg broffesiynol ac yn benodol hyfforddi swyddogion gweithredol a datblygu arweinyddiaeth. Gweithia gydag amrywiaeth o gyrff proffesiynol a sefydliadau gan gynnwys cwmnïau Fortune 500 yn y DU ac yn rhyngwladol megis Unilever, Northern Foods, ASDA, Nationwide (US).

Mae hi wedi teithio'n eang yn darlithio ar ddysgu seiliedig ar waith, hyfforddi ac ymchwil ymarferwr ac wedi gweithio gyda Chanolfan Arweinyddiaeth Addysg Prifysgol Manceinion a Phrifysgol Middlesex yn Arweinydd ar y Ddoethuriaeth Broffesiynol. Mae hi wedi bod yn brif ymchwilydd ar brosiect ledled Ewrop o dan yr UE ar oruchwylio doethuriaethau ac yn fwy diweddar FoodCloud.

Mae Annette yn awdur dros 60 o lyfrau a adolygwyd gan gymheiriaid ac mae'n rhedeg grŵp ymchwil penodol ym maes hyfforddi wrth fod yn rhan o'r Gymdeithas Hyfforddi a threfnu'r gynhadledd hyfforddi a mentora yn Abertawe. Mae hi ar fwrdd golygyddol *yr International Journal of Coaching and Mentoring in Education* yn ogystal â bod yn arholwr allanol ar amrywiaeth o raglenni yn y DU. Hi yw Pennaeth Academi Arfer Proffesiynol ac Ymchwil Cymhwysol Cymru



## Stephen Palmer

**Yr Athro Stephen Palmer, PhD, yw'r Athro Arfer yn Academi Arfer Proffesiynol ac Ymchwil Cymhwysol Cymru. Mae'n arweinydd ym maes hyfforddi a seicoleg hyfforddi gyda diddordeb penodol mewn straen, perfformiad a llesiant. Teitl ei ddoethuriaeth oedd, *Straen: Straen: Persbectifau Damcaniaethol a Chymhwysol.***

Mae gan Stephen gymwysterau proffesiynol mewn amrywiaeth o ddisgyblaethau ac mae'n seicolegydd, gwyddonydd a biolegydd siartredig. Mae'n oruchwyliwr hyfforddi sydd wedi ei achredu gan ISCP a hefyd yn un Hyfforddwyr Swyddogion Gweithredol a Goruchwylwyr Achrededig APECS. Mae ar Gofrestr Cymdeithas Seicolegol Prydain (BPS) o Oruchwylwyr Arfer Seicoleg Gymhwysol ac wedi ardystio ei fod yn bodloni'r gofynion ar gyfer cofrestru trwy eu hyfforddiant a'u profiad yn oruchwylwyr.

Mae rolau cyrff proffesiynol Stephen yn cynnwys bod yn Llywydd Anrhydeddus Cymdeithas Ryngwladol Rheoli Straen a Chymdeithas Ryngwladol Seicoleg Hyfforddi. Mae hefyd yn Gymrawd Anrhydeddus ac Is-lywydd Athrofa Hyrwyddo Iechyd ac Addysg. Ef oedd Llywydd Anrhydeddus cyntaf y Gymdeithas Hyfforddi a bellach mae'n Gymrawd Oes Anrhydeddus. Yn 2004, daeth yn Gadeirydd cyntaf Grŵp Arbennig BPS mewn Seicoleg Hyfforddi. Mae wedi derbyn gwobrau am ei gyfraniadau i seicoleg cwnsela a seicoleg hyfforddi.

Rolau academaidd Stephen gan gynnwys Athro Cynorthwyol Seicoleg Hyfforddi ym Mhrifysgol Aalborg, Denmarc. Mae Stephen yn Gyd-olygydd *European Journal of Applied Positive Psychology* ac yn Olygydd Ymgynghorol *Coaching: An International Journal of Theory, Research & Practice*. Mae wedi ysgrifennu a golygu dros 50 o lyfrau gan gynnwys *The Handbook of Coaching Psychology* (gyda Whybrow, 2019), *The Heart of Coaching Supervision* (gyda Eve Turner, 2019) a *Positive Psychology Coaching in Practice* (gyda Green, 2018).

# CWRDD Â'R TÎM



## Andrew Edwards

**Cymrawd Addysgu Datblygiad Addysgu – Mentor i ddysgwyr ar raglenni ôl-raddedig (Fframwaith Arfer Proffesiynol).**

Mae Andy yn gyn-Brif Swyddog sydd â thrideg a dwy o flynyddoedd o brofiad yng ngwasanaeth yr heddlu, ar ôl gwasanaethu gyda dau heddlu mewn amrywiaeth o rolau gweithredol a gweinyddol. Mae ganddo gyfoeth o brofiad rheoli ac mae wedi bod yn gyfrifol am arwain yr Heddlu a gweithrediadau amlasiantaethol sy'n amrywio o ymchwilio i droseddau difrifol ar waith, gweithrediadau gwrthderfysgaeth, gweithrediadau drylliau, adolygiadau lladdiadau achos oer a phrotest gyhoeddus trwy reoli achosion hollbwysig, ymchwiliadau mewnol cymhleth a datblygu strategaethau plismona Cymru gyfan.

Yn Brif Swyddog cyntaf y wlad i'w benodi'n rhanbarthol, datblygodd waith cydweithredol rhwng pedwar heddlu Cymru, gan arwain dulliau ar y cyd mewn amrywiaeth o swyddogaethau cymorth gweithredol a threfniadol. Ac yntau'n cael ei gydnabod yn ddatblygydd pobl brwd, arweiniodd y gwaith a arweiniodd at Heddlu Dyfed Powys yn sicrhau nifer o ddyfarniadau Marc Siartr a Buddsoddwyr mewn Pobl.

Mae Andrew yn Gyfarwyddwr Anweithredol mewn tri sefydliad, un ohonynt yn gwmni masnachol mawr, un yn elusen Cymru gyfan a'r trydydd yn bwyllgor goruchwylio.

Mae ganddo ddiddordeb mewn datblygu arweinyddiaeth, diwylliannau trefniadol ac arfer adfyfyriol.



## Christine Davies

**Yn arwain y rhaglen Doethuriaeth Broffesiynol; yn cyfrannu at raglenni eraill sy'n gysylltiedig ag addysg ac ymchwil mewn cyd-destun gweithle.**

Dechreuodd Christine ei gyrfa yn athro bioleg, ac mae addysg wedi parhau'n brif ffocws, er iddi fod yn rhan o ymchwil biofeddygol hefyd. Mae hi wedi dysgu mewn ysgolion, AB ac AU, gan gynnwys y Brifysgol Agored, ac mae hefyd wedi bod yn rhan o hyfforddi athrawon, gan gynnwys cyfnod yn Arweinydd Rhaglen ar gyfer Rhaglen Teach First yn Y Drindod Dewi Sant. Mae gan Christine hefyd brofiad sylweddol o ddatblygu staff academaidd, yn enwedig mewn Dysgu wedi ei Gyfoethogi gan Dechnoleg, a hwn oedd ffocws rolau diweddar oddi mewn i JISC yn Uwch Ddarlithydd ym Mhrifysgol Morgannwg.

Mae ei diddordebau proffesiynol yn cynnwys:

- Addysg wyddonol a meddygol;
- Dysgu oedolion;
- Rôl technoleg mewn dysgu ac addysgu.



## Nick Samuel

**Uwch ddarlithydd yw Nick sydd â thros 30 mlynedd o brofiad o weithio i gwmni cynhyrchu technolegol rhyngwladol o'r radd flaenaf – yn y cyfryngau magnetig, gofal iechyd a sectorau gofal personol. Yn ystod ei gyfnod ym maes gweithgynhyrchu, treuliodd dros 25 mlynedd yn goruchwylio ac yn rheoli a'r 10 mlynedd ddiwethaf ym meysydd Adnoddau Dynol, Dysgu a Datblygu a Chysylltiadau Cymunedol. Ers gadael gweithgynhyrchu, mae Nick wedi gweithio ym maes Addysg Uwch, i ddechrau yn Gymrawd Addysgu Datblygiad y Gweithlu ac yn ddiweddar yn Ddarlithydd mewn Datblygiad Gweithlu.**

Mae gan Nick brofiad helaeth o ddefnyddio dulliau Seicometrig, ac mae'n ymarferydd achrededig i Myers Briggs, Insights ac OPQ32 SHL. Mae ganddo MSc mewn Rheoli Adnoddau Dynol, BSc mewn Gwyddoniaeth a Thechnoleg, mae wedi hyfforddi'n Wregys Gwyrdd ar y cwrs Six Sigma ac mae'n Gymrawd Siartredig o Sefydliad Siartredig Personél a Datblygiad.



## Lowri Harris

**Mae Lowri yn Uwch Ddarlithydd a Chyfarwyddwr Rhaglen i'r Fframwaith Arfer Proffesiynol yn yr adran dysgu seiliedig ar waith sy'n canolbwyntio ar bynciau megis Achredu Dysgu Blaenorol, Rheoli Prosiectau a Marchnata Digidol. Mae Lowri'n gweithio i'r Academi ers dros 10 mlynedd ac yn canolbwyntio ar sicrhau ansawdd. Rhan arall o'i rôl yw datblygu rhaglenni newydd cyn trosglwyddo'r cyfrifoldeb o'u gwireddu.**

Cyn y rôl hon, gweithiodd Lowri yn y diwydiant e-ddysgu am 10 mlynedd yn rheolwr prosiect a chynnwys e-ddysgu lle enillodd gryn dipyn o brofiad yn niwydiant e-ddysgu a'r cyfryngau newydd ac ennill hefyd gymhwyster PRINCE2. Mae Lowri hefyd yn Gyfarwyddwr ar ei chwmni cyfryngau digidol ei hun sy'n arbenigo mewn e-ddysgu, fideo a datblygu apiau.

# CWRDD Â'R TÎM



## Sarah Loxdale

**Ers gadael Prifysgol Cymru, Abertawe â gradd anrhydedd BA yn y Gymraeg, mae Sarah wedi gweithio yn y sector addysg yng Nghymru gan gefnogi sefydliadau Cynradd, Uwchradd ac Addysg Bellach wrth ddarparu Addysg Gyrfaoedd ac Arweiniad ynghyd â chymorth ar gyfer sefydlu cysylltiadau rhwng addysg a diwydiant.**

Yn 2000, enillodd Sarah Dystysgrif Ôl-raddedig mewn Datblygu Arweinyddiaeth Addysgol ac Ymgynghori ym Mhrifysgol Manceinion. Wedyn aeth yn ei blaen i sicrhau nifer o rolau uwch yn Rheolwr Gweithredol a Rheolwr Polisi yng Ngyrfa Cymru.

Yn 2010, ymunodd â'r tîm yn Gymrawd Addysgu Dysgu Seiliedig ar Waith ac yn 2016 ymunodd yn Ddarlithydd a Chyfarwyddwr Rhaglen ar gyfer Cyfnerthu Arfer Gwaith Cymdeithasol.

Yn ddiweddar, cwblhaodd Sarah MA mewn Arfer Proffesiynol a chynnal ymchwil i'r effaith y mae modwl Cydnabod ac Achredu Dysgu Blaenorol yn ei chael ar allu a hyder dysgwr i ddatblygu eu gyrfa ymhellach.

Mae Sarah yn rhugl ei Chymraeg ac ar ôl dilyn dull seiliedig ar waith o ennill cymwysterau addysg uwch, mae Sarah yn frwd dros y llwybr sy'n galluogi gweithwyr proffesiynol i sicrhau cydnabyddiaeth am yr hyn a ddysgwyd a'r datblygu a gafwyd wrth weithio.



## Julie Crossman

**Mae Julie'n ddarlithydd a myfyrwraig doethurol yn yr Academi lle mae'n gyfrifol am arwain ar amrywiaeth o lwybrau academaidd, gan gynnwys MA mewn Hyfforddi a Mentora a'r rhaglen Arweinyddiaeth Glinigol. Julie hefyd yw'r tiwtor derbyniadau i'r Academi a'r arweinydd academaidd i'r Gymdeithas Hyfforddi, sef cymuned broffesiynol a gychwynnwyd i rannu arfer gorau â gweithwyr hyfforddi proffesiynol eraill, gan ddarparu cyfleoedd ar gyfer rhwydweithio ag arbenigwyr ym maes hyfforddi.**

Gan weithio ym maes addysg i oedolion er 2003, mae Julie wedi adeiladu ar ei phrofiad blaenorol mewn amrywiaeth o rolau arwain, gan ddatblygu rhaglenni dysgu arbenigol i gefnogi arweinwyr a rheolwyr ar draws amrywiaeth o sectorau. Yn academaidd, bu 2013 yn flwyddyn brysur dros ben lle cyflawnodd yr MA mewn Datblygiad Proffesiynol, Addysg a Hyfforddi, cyfleuster ILM Lefel 7 mewn Hyfforddi Swyddogion Gweithredol a Mentora Arweinwyr a sicrhaodd gymwysterau Rheolwr Siartredig gyda'r Sefydliad Rheoli Siartredig (CMI) ar gyfer ei gwaith wrth arwain sicrwydd ansawdd yn y sector addysg bellach (AB).

Ymunodd Julie â'r Academi yn 2016, a chyfrannodd at ddylunio, datblygu a darparu rhaglen ddysgu i Academi Arwain cwmni yn ne Cymru ac arweiniodd hyn at lwyddiant y cwmni cleient i sicrhau bri Rhagoriaeth ym maes Dysgu a Datblygu gan un o baneli rhanbarthol CIPD yn 2016. Gwahoddwyd Julie i ddod yn Asesydd Allanol gyda Chymdeithas Fyd-eang Hyfforddwyr Busnes (WABC) yn 2018.



## Steve Darnell

**Darlithydd mewn Arweinyddiaeth a Rheoli. Mae gan Steve dros 35 mlynedd o brofiad o weithio mewn sefydliad cynhyrchu trwm, rhyngwladol, yn y sector dur. O'r 30 mlynedd hyn, treuliwyd 25 mewn rôl oruchwylio a rheoli. Treuliwyd yr 8 mlynedd ddiwethaf mewn rôl gymorth gweithredol gyda chyfrifoldebau dros ddysgu a datblygu staff a rheoli polisïau a gweithdrefnau ar gyfer sicrhau ansawdd, iechyd, diogelwch a'r amgylchedd.**

Mae gan Steve radd anrhydedd mewn cemeg o Gymdeithas Frenhinol Cemeg, Tystysgrif Addysg Ôl-raddedig, MA mewn Datblygiad Proffesiynol, Addysg a Hyfforddiant ac mae'n aelod cysylltiedig o'r Sefydliad Diogelwch ac Iechyd Galwedigaethol a'r Sefydliad Rheoli ac Asesu Amgylcheddol. Mae'n brif archwilydd sicrhau ansawdd ar gyfer ISO 9002/ TS16949 ac archwilydd mewnol ar gyfer safon amgylcheddol ISO 14001.

Mae ddiddordebau proffesiynol yn cynnwys:

- 40 mlynedd mewn gweithgynhyrchu, hyfforddiant a datblygiad pobl;
- Iechyd, diogelwch, llesiant ac amgylchedd;
- Rheoli ac arweinyddiaeth
- Datblygiad pobl.



## Mair O'Connor

**Cafodd Mair yrfa amrywiol gan weithio mewn amrywiaeth o sectorau, gan gynnwys y Gwasanaeth Sifil, y diwydiant gwasanaethau, manwerthu, a menter cyn penderfynu ar yrfa mewn hyfforddiant a datblygiad. Mae hi wedi dal nifer o uwch swyddi rheoli, ac mae wedi cefnogi datblygiad staff yn uniongyrchol drwy hyfforddi unigolion a thimau, yn ogystal â mentora rheolwyr ar bob lefel gan gynnwys cyfarwyddwyr.**

Mae gan Mair lawer o gymwysterau sy'n cynnwys Diploma mewn Rheoli Goruchwyliol; Diploma mewn Hyfforddi Rheolwyr – cymwysterau a enillodd wrth ennill profiad ymarferol mewn Rheoli Adnoddau Dynol a Datblygiad Adnoddau Dynol. Mae hi'n Gymrawd Siartredig o Sefydliad Siartredig Personél a Datblygiad, a Chymrawd o'r Academi Addysg Uwch. Ar hyn o bryd mae'n dilyn diddordeb a chymwysterau ym maes niwrowyddoniaeth dysgu.

Yn 2002, sefydlodd CT Learning Ltd, cwmni hyfforddi a oedd yn arbenigo mewn datblygiad rheoli, ac roedd yn ganolfan achrededig ILM ar gyfer darparu Rhaglenni Rheoli ac Arweinyddiaeth, a Hyfforddi. Roedd y cleientiaid yn cynnwys sefydliadau cyhoeddus a phreifat o amrywiaeth eang o sectorau.

Ymunodd Mair â'r tîm dysgu seiliedig ar waith yn Y Drindod Dewi Sant yn 2009, lle mae'n arwain ar hyn o bryd ar achredu dysgu, wrth ddefnyddio hefyd ei sgiliau i ddylunio a darparu rhaglenni hyfforddi a mentora. Mae hi'n gwbl argyhoeddedig o fanteision dysgu seiliedig ar waith i gyflogwyr a gweithwyr, ac yn gefnogwr brwd i ddysgwyr.



## Ann Beaumont

**Ymunodd Ann â'r Tîm Dysgu Seiliedig ar Waith ym mis Tachwedd 2012. Darpara Ann gymorth gweinyddol gwerthfawr ar gyfer y Fframwaith Arfer Proffesiynol.**

Cyn dechrau ar ei rôl bresennol, gweithiodd Ann i'r Gwasanaeth Sifil a datblygodd ei sgiliau yn y sectorau Gweinyddu a Rheoli. Enillodd yr hyn a gyflawnodd Ann yn ei swydd reoli brofiad helaeth iddi ym maes AD, Iechyd a Diogelwch a Diogelu, Rheoli Risg, Gweithdrefnau Gweithredol, Hyrwyddo Mentrau Newydd a Rheoli Ansawdd a Sicrhau Ansawdd.



## Lynsey Edwards

**Mae Lynsey yn gyfrifol ar gyfer rheolwyr gweithredol y Gymdeithas Hyfforddi, a darparu prosiectau eraill. Mae rôl Lynsey yn cynnwys rheoli marchnata, monitro allbynnau, cyllidebau ac unrhyw weithgarwch sy'n gysylltiedig â phrosiectau.**

Graddiodd Lynsey Edwards o Brifysgol Cymru Aberystwyth yn 2006 a dechrau ei gyrfa yn y sector gwirfoddol gan weithio'n Swyddog Prosiectau ar gyfer Cymunedau'n Gyntaf. Aeth Lynsey yn ei blaen i weithio'n Swyddog Ariannol ar gyfer elusen ac ar yr un pryd dod yn Gyfarwyddwr a Chadeirydd menter gymdeithasol 'Mess up the Mess Ltd', sefydliad dielw a grëwyd i gynnig profiadau deinamig o wneud theatr i bobl ifanc. Mae Lynsey wedi gweithio i'r Brifysgol er 2009 ar brosiectau a ariannir gan Ewrop gan gynnwys GO Wales, Mentora ar gyfer Gweithlu, Twf Swyddi Cymru ac Elevate Cymru.

# EIN PARTNERIAID

1. Porth Agored, sef consortiwm o 12 awdurdod lleol / adran gwaith cymdeithasol
2. LUX Hospitality Mauritius
3. Voice Workshop
4. Cyngor Sir Caerfyrddin
5. Heddlu Dyfed Powys
6. Heddlu De Cymru
7. Heddlu Gwent
8. Addysg – Consortiwm y De-ddwyrain a Chymru Gyfan
9. Coaching Company, Cape Town De Affrica
10. Gwasanaeth Ambiwlans Cymru
11. Tata Steel
12. Prifysgol Abertawe
13. Yr Ystafell Fyw
14. NTFW
15. Letter Box
16. Coastal Housing
17. FieldBay
18. Tai Tarian
19. Academi Wales
20. Amrywiaeth o BBaChau...

# SUT I WNEUD CAIS

Cysylltwch â'r tîm yn uniongyrchol trwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost neu'r rhif ffôn isod.

Yn ddarpar fyfyriwr, bydd y Swyddog Derbyniadau yn trefnu cyfarfod i drefnu'r opsiynau sy'n agored i chi. Bydd hyn yn digwydd ar y campws, fel arfer, ond gellir cytuno ar drefniadau gwahanol.

Os cynigir lle i chi, bydd gofyn i chi gofrestru ar y modwl cyn mynd i'r diwrnod cynefino.
Mae gan bob modwl ddiwrnodau cynefino ac astudio.

Cysylltwch â ni am ddechrau newydd:
**01267 676882**
**wappar@uwtsd.ac.uk**